



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

2.30 y.h., DYDD LLUN, 15FED MEDI, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 8 Medi 2025)

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODAETH (9)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Iwan Huws
R Medwyn Hughes

Elin Hywel

Ioan Thomas

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Aelodau Cyfetholedig (2)

Cyngorydd Robin Wyn Williams
Cyngorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7fed o Orffennaf 2025 fel rhai cywir

5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

9 - 70

I dderbyn a nodi'r wybodaeth

6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25

71 - 74

I ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

7. ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y PWYLLGOR PENSIYNAU AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA

75 - 78

I ystyried cynnwys yr adroddiad a chynnig sywladau

8. COFRESTR RISG CRONFA BENSIWN GWYNEDD

79 - 98

I ystyried yr adroddiad

9. POLISI'AU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN

99 - 107

I gymeradwyo a mabwysiadu'r polisi'au

10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol(yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â

defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau ac felly am y rhesymau yma mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

11. CANLYNIADAU CYCHWYNOL PRISIAD 2025

I ystyried yr adroddiad

(copi i Aelodau yn unig)

12. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.01.2025 -31.03.2025

I ystyried yr adroddiad

(Copi i'r Aelodau yn unig)

PWYLLGOR PENSIYNAU 07-07-25

Cynghorwyr:

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, R Medwyn Hughes, Iwan Huws, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Ned Michael (Bwrdd Pensiwn – arsylwi)
Osian Roberts (Archwilio Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC ynghyd a'r hyn a benderfynwyd ynn nghyfarfod mis Mawrth o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (corff sydd yn gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth ble mae Cadeirydd pob cronfa yn eistedd arno). Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Bartneriaeth wedi ail benodi Hymans Robertson fel cynghorydd goruchwylio (oversight advisor) a Robeco fel darparwr pleidleisio ac ymgysylltu.

Cyflwynwyd hefyd ddiweddariad ar y cynllun hyfforddi, y cynllun busnes a'r gofrestr risg ynghyd a diweddariad y gweithredwr oedd yn amlygu'r holl gronfeydd sydd gan y Bartneriaeth wedi'i sefydlu. Cyfeiriwyd at fanylder gwaith y gweithredwr dros y cyfnod ac at unrhyw amodau'r farchnad sydd wedi cael eu monitro ganddynt. Tynnwyd sylw at ddadansoddiad fesul is-gronfeydd o'r perfformiad gan nodi bod perfformiad y cronfeydd ecwiti byd-eang wedi bod yn gryf ar marchnadoedd incwm sefydlog wedi llusgo.

Cyfeiriwyd at y gwaith 'Addas i'r Dyfodol' lle atgoffwyd yr Aelodau iddynt gymeradwyo gofyniad i greu cwmni buddsoddiad IMCo a symud y prosiect ymlaen. Ategwyd bod y Cyngor Llawn hefyd wedi ei gymeradwyo ar y 3ydd o Orffennaf 2025, gyda disgwyliad y bydd wyth Cyngor y Bartneriaeth wedi cymeradwyo'r gofyn erbyn diwedd y mis. Bydd y gwaith o sefydlu'r cwmni yn digwydd dros yr Haf er mwyn cyrraedd y dyddiad targed o 31 Mawrth 2026.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth fydd yn digwydd i bortffolio eiddo Gwynedd wedi i'r cwmni buddsoddi IMCo gael ei sefydlu, nodwyd bod proses tendr wedi digwydd ac y byddai'r buddsoddiadau eiddo yn rhan o gronfeydd newydd eiddo Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda cronfa eiddo'r Deyrnas Unedig, a cronfa eiddo 'impact'.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chais i'r sesiynau hyfforddiant gael eu recordio fel bod modd cyfeirio'n ôl atynt os byddai problem mynychu, nodwyd y byddai'r sylw yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Lletyol i sicrhau bod dolennau i'r recordiadau ar gael i'r Aelodau.

Mewn ymateb i sylw am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor yn newid o ganlyniad i sefydlu cwmni buddsoddi IMCo erbyn Mawrth 2026, awgrymwyd cynnal sesiwn penodol i rannu gwybodaeth am y sefyllfa erbyn cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

6. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2025

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2025. Amlygwyd bod y cyfrifon (drafft) yn destun archwiliad sy'n cael ei weithredu gan Archwilio Cymru

Adroddwyd bod y cyfrifon yn dilyn ffurf statudol CIPFA gyda'r canllawiau yn dehongli beth sy'n cael ei gyflwyno yn y cyfrifon ac nad oedd dim newid yn y canllawiau o'r flwyddyn ddiwethaf.

Mynegwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un prysur i'r Gronfa a gwaith yn parhau mewn buddsoddi yn ehangach gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyfeiriwyd at grynodedd o gyfrif y Gronfa gan dynnu sylw at ychydig o amrywiadau wrth i'r cyfraniadau a'r buddion gynyddu wedi i weithwyr dderbyn codiadau cyflog ac wrth i'r pensiwn gynyddu gyda CPI. Adroddwyd bod cynnydd yn y costau rheoli wrth i werth yr asedau gynyddu ac o gyflwyno mathau gwahanol o fuddsoddiadau i'r portffolio e.e. credyd preifat. Ategwyd bod cynnydd o oddeutu £160 miliwn yng ngwerth marchnad y gronfa sy'n unol a'r cynnydd graddol blynyddol.

Eglurwyd bod incwm buddsoddi'r gronfa wedi codi yn sylweddol a buddsoddiadau ecwiti wedi perfformio yn gryf ac o ganlyniad wedi cynhyrchu incwm sylweddol. Ategwyd fel rhan o'r dyraniad asedau strategol, buddsoddiwyd mwy yn y cronfeydd incwm sefydlog ac isadeiledd.

Tynnwyd sylw at y nodiadau statudol oedd yn rhoi manylion pellach tu ôl i'r ffigyrau, gweithgareddau'r Gronfa, a Phartneriaeth Pensiwn Cymru, gan fod y Bartneriaeth yn rhan flaenllaw bellach o waith y Gronfa.

Ategodd y Pennaeth Cyllid ei fod, fel Swyddog Adran 151 wedi arwyddo'r cyfrifon drafft gan dderbyn eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o'r sefyllfa.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad a'r cyfrifon yn fanwl ac yn hawdd eu deall
- Bod y fformat yn un da
- Bod y cynnydd (growth) yn galonogol

PENDERFYNWYD:

Derbyn a nodi Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2024/25

7. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2025

Croesawyd Osian Roberts (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer 2025 oedd yn cyflwyno'r tîm archwilio, y ffioedd a llinell amser y gwaith fydd yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r cyfrifoldeb statudol sydd ganddynt fel archwilywyr allanol. Amlygwyd y byddai gwaith archwilio'r datganiadau ariannol yn cael ei gwblhau yn ystod mis Medi gyda bwriad o gyflwyno adroddiad ar y datganiadau yn ystod Tachwedd 2025. Cyfeiriwyd at y risgiau gan nodi bod y risg o wrthwneud gan reolwyr yn risg gorfodol sydd wed ei gynnwys ymhob cynllun yng Nghymru fel rhan o weithdrefn Archwilio Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i Osian Roberts am fynychu'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

9. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.10.24 – 31.12.24

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn cyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod angen gwybodaeth am amserlen datblygu polisi cynnydd (escalation). Byddai'r amserlen yn ddefnyddiol ar gyfer ateb cwestiynau sydd yn codi yn aml
- Rhaid sicrhau bod y polisi yn effeithiol - bod angen diffiniad eglur o pryd fydd ymyrraeth yn amserol
- Bod yr adroddiad yn un positif ac wedi ei gyflwyno yn dda
- Awgrym i ystyried defnyddio symbolau (emoji) fel modd o ddenu sylw at uchafbwyntiau o fewn yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 14:35

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	15 MEDI 2025
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMELLIAD	DERBYN A NODI Y WYBODAETH
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymïadau stiwardiaeth.

2. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 16 Gorffennaf 2025. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

Derbyniwyd gyflwyniad gan Archwilio Cymru ar y Ffurflen Flynyddol ac ni chodwyd unrhyw faterion. Mewn perthynas â Phrosiect yr Wyddfa, cadarnhawyd bod y gwaith yn parhau a'r dyddiad cau nesaf allweddol yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i'r FCA ym mis Medi 2025. Cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau o fewn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio o'r Gofrestr Risg, risgiau G8 i G15. Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLI. Yn olaf, adolygwyd a diweddarwyd y polisiau canlynol: buddsoddi cyfrifol, hinsawdd a stiwardiaeth.

3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi'i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 31ain Mawrth 2025.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn saith o'r deg is-gronfeydd ac ar 31ain Mawrth 2025, roedd gwerthoedd a chanran yr is-gronfeydd fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £460.6m (14%)**
- **Twf Byd- Eang- £418.9m (12%)**
- **Marchnadoedd Datblygol - £63.0m (23%)**
- **Credyd Aml Ased - £241.9m (29%)**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £403.2m (76%)**
- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £233.4m (23%)**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £317.7m (21%)**

4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31ain MAWRTH 2025

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad 4.

Gostyngodd ecwitiai byd-eang a marchnadoedd incwm sefydlog yn nhermau sterling yn y chwarter cyntaf. Fe wnaeth dryswch ynghylch gweithredu tariffau, ansicrwydd geo-wleidyddol, ac arwyddion o deimladau gwannach ymysg defnyddwyr yr Unol Daleithiau achosi mwy a mwy o nerfusrwydd yn y farchnad, gan hel buddsoddwyr i chwilio am asedau 'hafan diogel'. Roedd yr Unol Daleithiau yn faich ar ecwitiai byd-eang, gydag enwau technoleg yn tanberfformio.

Cododd cynnyrch gilt y DU wrth i farchnadoedd addasu i'r posibilrwydd o lai o doriadau cyfradd nag a brisiwyd yn flaenorol, gan ddringo ymhellach ar bryderon am bolisiau'r UD a safiad 'hawkish' y Federal Reserve. Yn ddomestig, mae buddsoddwyr yn poeni am allu'r llywodraeth i hybu twf ac adfer cyllid cyhoeddus. Wrth i Fanc Lloegr ostwng cyfraddau 25 pwynt sylfaen (bps) i 4.5%, fe wnaeth hefyd haneru ei ragolwg twf 2025 i 0.75% a rhybuddio am chwyddiant cynyddol, a gyrhaeddodd 3.0% ym mis Ionawr cyn arafu i 2.8% ym mis Chwefror. Dros y cyfnod cododd y cynnyrch ar giltiau 10-mllynedd meincnod o 11 bps i 4.68%. Perfformiodd ecwitiai'r DU yn well na'r mynegai byd-eang ac roeddent yn ail yn unig i Ewrop wrth i fuddsoddwyr chwilio am ddewisiadau amgen i stociau UD gwerth uchel. Ynni a thelathrebu oedd y sectorau a berfformiodd orau. Fe wnaeth sterling – fel y rhan fwyaf o arian cyfred – gryfhau yn erbyn doler yr UD ond dibrisiodd yn erbyn yr ewro a yen Japan.

5. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT

Mae mwyafrif o brif raglenni buddsoddiadau'r marchnadoedd preifat bellach wedi eu lansio –Isadeiledd, Credyd Preifat ac Ecwiti Preifat. Mae'r rheolwyr Eiddo wedi'u penodi, ac maent ar hyn o bryd yn sefydlu'r rhaglenni buddsoddi Eiddo, disgwylir iddo gael ei lawnsio yn Hydref 2025.

6. ECWITI PREIFAT

Penodwyd Schroders Capital yn Ddyranwr Ecwiti Preifat PPC ym mis Medi 2022. Darparodd Schroders Capital ddiweddariad cynnydd ar y cynllun buddsoddi Ecwiti Preifat wedi'i gynnwys yn Atodiad 5.

7. ARGYMHELLIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad CBLI

Dyddiad cyfarfod CBLI: Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2025

Lleoliad: Cyfarfod rhithiol

Cadeirydd: Cyngorydd Peter Lewis, Powys

Is Gadeirydd: Cyngorydd Elin Hywel, Gwynedd

Eitem agenda	Manylion
Cadeirydd / Is Gadeirydd	Cafodd y Cyngorwyr Peter Lewis a Elin Hywel eu penodi fel Cadeirydd a Is Gadeirydd ar gyfer 2025/26
Ffurflen Flynyddol 2024/25	Cyflwynodd Jason Blewitt o Archwilio Cymru Ffurflen Flynyddol 2024/25 a llythyr Archwilio. Mae'r archwiliad bellach wedi'i gwblhau ac nid oedd unrhyw faterion wedi codi.
Diweddariad Awdurdod Lletya	Darparodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya mewn perthynas a gwaith sydd wedi'i gwblhau ers y cyfarfod CBLI diwethaf a camau nesaf a blaenoriaethau PPC. Darparodd Rachel Barrack o Hymans ddiweddariad mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol. Mewn perthynas â Phrosiect y Wyddfa, soniodd Anthony bod dyddiad cau y cyflwyniad i'r FCA ym Medi 2025 a diolchodd i'r holl swyddogion am eu gwaith ar y prosiect hwn. Ychwanegodd hefyd fod y Rhaglen Buddsoddi Eiddo i fod i lawnsio ganol mis Medi 2025. Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2024/25 ar 31 Mawrth 2025 (ynghlwm).
Cofrestr Risg Adolygiad Ch2 2025	Mae'r swyddogion yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI bob chwarter. Mae gan y swyddogion Is-grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg ac yn cynnal adolygiadau chwarterol o'r ddogfen. Yn ystod Chw2 2025, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau o fewn adran Llywodraethu a Rheoleiddio y Gofrestr Risg, risgiau G8 i G15.

	Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i llwytho i fyny ar wefan PPC.
Adolygiadau Polisi: • Polisi Buddsoddi Cyfrifol • Polisi Hinsawdd • Polisi Stiwardiaeth	Mae PPC wedi cymeradwyo nifer o bolisiau/ cynlluniau sydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter yma, mae'r swyddogion wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisiau Buddsoddi Cyfrifol, Hinsawdd a Stiwardiaeth a cyflwynodd Hymans y polisiau wedi'u diweddarau. Cyflwynodd Hymans hefyd ddiweddariad cynnydd blynyddol PPC 2024/25 mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd a'r meysydd arfaethedig ar gyfer ffocws yn y dyfodol. Cafodd y polisiau diweddaraf eu cymeradwyo ac maen't wedi eu diweddarau ar wefan PPC. Mae'r diweddariad cynnydd hefyd wedi'i uwchlwytho i'r wefan. Nid oedd unrhyw bolisiau newydd y chwarter hwn.
Diweddariad Gweithredwr	Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddarau chwarterol ar 31 Mawrth 2025 (ynghlwm). Ceir ddiweddariad ar is-gronfeydd PPC a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu.
Adroddiadau Perfformiad ar 31 Mawrth 2025	Cyflwynodd Russell Investments bapur perfformiad Chw1 2025 (ymghlwm) sydd yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.
Diweddariad Marchnadoedd Preifat – Ecwiti Preifat	Penodwyd Schrodgers Capital yn ddylanwr Ecwiti Preifat PPC ym mis Medi 2022. Cyflwynodd Schrodgers Capital ddiweddariad ar gynnydd ar y rhaglen Buddsoddi Ecwiti Preifat (ynghlwm).
Eitemau wedi'u heithrio – trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan preifat o'r cyfarfod.	
Adolygiad o Berfformiad Benthycia Stoc 2024/25	Dechreuodd Benthycia Stoc yn Mawrth 2020 a cyflwynodd Northern Trust Adolygiad o Berfformiad Benthycia Stoc ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.
Adroddiadau Ymgysylltu Robeco – Chw1 2025	Ym Mawrth 2025, Ail-benodwyd Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â

	swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 1 2025. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer Ch1 2025 oedd Llywodraethu Da.
Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd	Pob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is- gronfeydd PPC. Ar gyfer Chwarter 1 2025 (chwarter sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025), cafodd adroddiadau Global Growth, Global Opportunities a Sustainable Active Equity eu cynhyrchu. Cyflwynodd Hymans adroddiadau i aelodau'r CBLI.

Dolen gwe-ddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLI 16 Gorffennaf 2025 isod:

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 16eg Gorffennaf, 2025, 10.00 yb](#)

Gwefan PPC - [Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref](#)

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mercher, 17 Medi 2025 – cyfarfod Hybrid, cynhelir gan Torfaen



Cynllun Busnes
Partneriaeth Pensiwn Cymru
2024-2025
Adolygiad Ch4
(Ebrill 2024 i Mawrth 2025)

Llywodraethu

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Proses gaffael yr Ymgynghorydd Goruchwyliol	Do	
Proses gaffael darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu	Do	
Adolygiad blynyddol o bolisiâu a chynlluniau PPC	Parhaus	
Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	Parhaus	
Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad	Parhaus	

Datblygiad parhaus i'r Is-gronfeydd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Lansio'r rhaglenni buddsoddi eiddo tirol	Yn mynd rhagddo	
Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol	Parhaus	
Ystyriaeth o ofynion Ffyniant Bro / gofynion effaith y Bartneriaeth	Parhaus	
Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen	Parhaus	
Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol	Parhaus	

Gwasanaethau Gweithredwr

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Cwblhau proses caffael contract a gweithredu contract gweithredwr newydd	Do	
Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa	Parhaus	

Buddsoddiadau ac Adrodd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat	Yn mynd rhagddo	Opsiynau adrodd yn cael eu hystyried ar gyfer marchnadoedd preifat
Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD	Do	Wedi cael ei gyflwyno i CBLI ym mis Mawrth 2025
Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth	Do	Adroddiad 2023/24 wedi gyflwyno 31 Hydref 2024
Ystyried adroddiadau ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol	Parhaus	
Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad yr Is-gronfeydd buddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd	Parhaus	
Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog)	Do	Yn cael ei gyflwyno i CBLI ym mis Medi 2025
Adolygu cyflwyniad gwasanaeth Russell Investment o ran cyflawni amcanion y Bartneriaeth ar draws yr Is-gronfeydd	Do	Adroddiad i'w rannu gyda'r GS ac aelodau'r CBLI

Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau ESG /Buddsoddi Cyfrifol a'u huchelgeisiau hinsawdd	Parhaus	
--	---------	--

Cyathrebu a Hyfforddiant

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol	Do	Adroddiad wedi'i gyflwyno yn y CBLI ym mis Gorffennaf 2024 ac wedi'i gyhoeddi ar y wefan
Llunio cynllun hyfforddi blynyddol PPC	Do	Cynllun hyfforddi 2025/26 wedi cael ei gyflwyno i CBLI mis Mawrth 2025 am gymeradwyaeth
Llunio diweddariad blynyddol PPC	Do	Cyhoeddwyd diweddariad blynyddol 2023/24 ym mis Awst 2024
Llunio adroddiad blynyddol PPC	Do	Cyhoeddwyd Adroddiad blynyddol 2023/24 ym mis Ragfyr 2024

Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu	Do	Adolygwyd wrth edrych ar gyllideb 2025/26
Llunio cyllideb flynyddol PPC	Do	Wedi'i llunio a'i chynnwys yng Nghynllun Busnes 2025-28
Adolygu a monitro ffioedd gweithredwr / darparwr allanol	Parhaus	

Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2024-25 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2024-2025 a'r cynnydd hyd yma:

	Cwblhawyd	Sylwadau
• Buddsoddiadau cyfun y Bartneriaeth	Do	18 Mehefin 2024
• Trosolwg o ddiogelwch seibr ac ystyriaeth i'r Bartneriaeth	Do	18 Mehefin 2024
• Polisiau - Polisi Buddsoddi Cyfrifol	Do	18 Hydref 2024
• Polisiau - Polisi Risg Hinsawdd	Do	18 Hydref 2024
• Polisiau - Polisi Stiwardiaeth	Do	18 Hydref 2024
• Buddsoddi Cyfrifol - Cynllunio iath Sero Net	Do	28 Tachwedd 2024
• Buddsoddi Cyfrifol - Metrigau Hinsawdd	Do	28 Tachwedd 2024
• Cynnydd Cronfeydd CPLIL eraill a Cyfleoedd i Gydweithio	Do	24 Mawrth 2025
• Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd	Do	24 Mawrth 2025

Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2024-2025:

	Cyllideb 2024-2025 £000	Sefyllfa 2024 – 2025 £000	Amrywiaethau 2024 - 2025 £000
Awdurdod Lletya *	231	186	45
Ymgynghorwyr Allanol *	1,411	1,270	141
Prosiect yr Wyddfa *	0	470	(470)
CYFANSWM i'w ail-godi	1,642	1,926	(284)
Gwasanaethau Gweithredwr **	40,734	40,127	607
Gwasanaethau Dyranwr **	7,006	7,094	(88)
CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau	47,740	47,221	519

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol.*

Buddsoddiadau

Is-gronfeydd Ecwiti

Cronfa Twf Byd-eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Cyfleoedd Byd-eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Marchnadoedd Datblygol

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Rheolir gan: Russell Investments

Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Credyd Aml-ased

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Credyd Byd-Eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa UK Credit

Rheolir gan: Waystone Management (UK) Ltd

Marchnadau Preifat

Seilwaith – caeedig

Rheolir gan: GCM Grosvenor

Seilwaith - penagored

Rheolir gan: CBRE, IFM and Octopus

Credyd Preifatt

Rheolir gan: Russell Investments

Ecwiti Preifat

Rheolir gan: Schroders Capital



Partneriaeth Pensiwn Cymru

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cydbwyllgor Llywodraethu - Adolygiad Ch1 2025
16 Gorffennaf 2025

Cyflwynwyd gan James Zealander



Rhaglen

03	Diweddariad Corfforaethol
04	Diweddariad Cydymffurfio
05	Trosolwg Perthynas
06	Gwerthoedd Is-Gronfeydd
07	Asedau Dan Reolaeth Is-gronfeydd a Chanran Perchnogaeth
08	Ciplun o'r Gronfa – Ecwitiâu
09	Ciplun o'r Gronfa - Incwm Sefydlog
10	Mentrau
11	Diweddariadau'r Farchnad
12	Goruchwylio – Monitro Trydydd Parti
13	Ymgysylltiad WMUK
14	Amserlen Cyfarfod

Diweddariad Corfforaethol

Ymgynghoriad Fit for the Future

Cymeradwyodd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn eu hymateb i'r ymgynghoriad 'Fit for the Future'. Derbyniodd PPC gymeradwyaeth y llywodraeth ar gyfer ei gynlluniau ar 9 Ebrill. Dywedodd y llywodraeth: "Rydym wedi adolygu cynnig PPC ac yn gefnogol i chi fwrw ymlaen fel y nodir yn unol â dyddiad cau ym mis Mawrth 2026".

Rydym yn parhau i weithio gyda'r PPC i greu cwmni buddsoddi annibynnol ynghyd â awdurdodiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) angenrheidiol ar gyfer caniatadau perthnasol.

Nodir bod cleient LGPS arall, Waystone, ACCESS, wedi cael gwrthod eu cynllun a bydd yn parhau i weithio gydag ACCESS i ddod o hyd i ateb amgen.

'Rydym yn falch o gyhoeddi bod Andrew Smith wedi ymuno â Waystone fel Prif Swyddog Technoleg a Diogelwch Gwybodaeth (CTISO). Bydd Andrew yn rhan o'n harweinyddiaeth weithredol yn y DU.

Bydd Andrew yn arwain ein strategaeth technoleg a diogelwch gwybodaeth yn fyd-eang, gan chwarae rhan ganolog wrth yrru arloesedd a chefnogi ein twf parhaus.

Daw Andrew â dros 30 mlynedd o brofiad technoleg helaeth, gyda mwy na dau ddegawd mewn rolau arwain o fewn gwasanaethau ariannol. Bydd ei arbenigedd mewn fintech, datblygu cynnyrch ariannol, a thrawsnewid sefydliadol ar raddfa fawr, yn amhrisiadwy wrth i ni barhau i dyfu ac arloesi.

Yn fwyaf diweddar, gwasanaethodd Andrew fel Prif Swyddog Digidol yn Nucleus Financial Group, lle roedd hefyd yn flaenorol yn dal rôl y Prif Swyddog Technoleg. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd arweiniodd drawsnewid digidol y Grŵp, datblygodd gynhyrchion fintech ac ariannol arloesol, a diffiniodd strategaethau technoleg hirdymor.

Yn arweinydd profedig, mae Andrew wedi gyrru mentrau newid yn llwyddiannus, rheoli llwyfannau byd-eang, a gweithredu systemau rheoli buddsoddiadau a masnachu ecwiti. Mae ganddo hanes llwyddiannus o raddio gweithrediadau o egin-fusnesau newydd i fentrau, integreiddio systemau meddalwedd ariannol, a darparu datrysiadau busnes cenhadaeth hanfodol.

Cafodd Waystone ei gydnabod yng Ngwobrau Gwasanaethau Ewropeaidd HFM 2025 lle buom yn llwyddiannus wrth ennill 'Gweinyddwr gorau – rheolwyr boutique a rheolwyr sy'n dod i'r amlwg', 'Darparwr gwasanaeth gorau – ESG' a cholli allan o drwch blewyn ar y wobwr 'Gweinyddwr gorau – gwasanaeth cleientiaid' ond cawsant ganmolïaeth uchel.

Mae Waystone Administration Solutions hefyd wedi cael ei gydnabod gan The Drawdown Awards 2025 yn y categori canlynol, 'Gweinyddu Cronfa: \$50-500bn (cyfanswm ecwiti preifat byd-eang AUA)'. Cynhelir y seremoni wobrwyo ar 12 Mehefin.

Diweddariadau Cydymffurfio

Mae'r tabl isod yn manylu ar ddatblygiadau cydymffurfio rheoleidiol diweddar sy'n berthnasol i WMUK. Cesglir eitemau dan sylw o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys papurau ymgynghori, datganiadau i'r wasg ac areithiau.

Cyhoeddir diweddariad rheoleidiol llawn i'r Awdurdod Lletya bob mis ond gellir ei gael hefyd trwy arwyddo i Wefan Waystone. [UK/EU updates Archives - Waystone Compliance](#)

Teitl				
	Amseru	Effaith WMUK	Effaith PPC	Statws
Adolygiad yr FCA o driniaeth cwmnïau o gwsmeriaid agored i niwed	Ar unwaith	Uchel	I'w nodi	
FCA yn cyhoeddi adolygiad aml-gwmni ar arferion priso'r farchnad breifat	Ar unwaith	Canolig	I'w nodi	
FCA yn lansio strategaeth 5 mlynedd i gefnogi twf a gwella bywydau	Ar unwaith	I'w nodi	I'w nodi	
FS25/2: Meysydd gweithredu ar unwaith a chynlluniau pellach ar gyfer adolygu gofynion yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar ôl cyflwyno'r Ddyletswydd Defnyddwyr	Ar unwaith	I'w nodi	I'w nodi	

Ar 14 Chwefror 2025, cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ddogfen o'r enw " **Authorised Fund Applications – Our Expectations,**" yn manylu ar y gofynion ar gyfer cwmnïau sy'n ceisio awdurdodiad ar gyfer cynlluniau buddsoddi ar y cyd.

Disgwyliadau Cyffredinol:

- Ceisiadau Hunanynhwysol: Rhaid i'r holl wybodaeth angenrheidiol gael ei chynnwys yn y cais, heb gyfeirio at ddogfennau eraill.
- Strategaethau wedi'u Datblygu'n Llawn: Rhaid datblygu strategaethau cynnyrch a dosbarthu'n llawn ar adeg y cais.
- Capasiti i gyflawni: Dylai pob parti dan sylw fod â'r gallu i gyflawni eu rolau arfaethedig.
- Cysondeb: Rhaid i wybodaeth ar draws yr holl ddogfennau cais fod yn gyson.
- Dogfennaeth gyflawn: Rhaid cyflwyno set gyflawn o ddogfennau gofynnol gyda'r cais.

Meysydd Cymhwyso Penodol:

- Enwau Cronfeydd: Rhaid adlewyrchu strategaeth y gronfa yn gywir a pheidio â bod yn gamarweiniol.
- Amcanion Buddsoddi: Dylai ddatgan nodau'r gronfa yn glir a sut y byddant yn cael eu cyflawni.
- Targedau Anwadlwrdd: Os ydynt yn cael eu defnyddio, rhaid ei esbonio'n glir a'u cyflawnhau.
- Strategaethau Buddsoddi: Esboniad manwl o sut y bydd y gronfa yn cyflawni ei hamcanion.
- Meincnodau: Defnydd priodol a datgelu unrhyw feincnodau yn briodol.
- Strategaethau ESG: Esboniad clir o unrhyw ffocws amgylcheddol, cymdeithasol neu lywodraethu.
- Trefnadau Delio: Disgrifiad cywir o brosesau tanysgrifio ac adbrynu.

Ystyriaethau Arbennig:

- Cronfeydd Asedau Tymor Hir (LTAFs): Angen manylion ychwanegol, gan gynnwys prosesau priso ac arbenigedd rheoli.
- Mae'r FCA yn pwysleisio efallai na fydd ceisiadau anghyflawn yn ddarostyngedig i derfynau amser arferol a y gellid eu gwrthod.
- Nod y canllawiau hyn yw symleiddio'r broses ymgeisio a sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu ymlaen llaw, gan ganiatáu adolygiad ac awdurdodi cronfeydd yn fwy effeithlon.

Trosolwg Perthynas

Trosolwg Perthynas					
Cleient	Partneriaeth Pensiwn Cymru	AUM (ar 31 Mawrth 2025)	£13,144,233,653	Cyfres Cynnyrch	ACS – UK
Dyddiad Dechrau'r Contract	Rhagfyr 2017	Dyddiad y Daw'r Contract i Ben	Rhagfyr 2029 (gyda darpariaeth i'w ymestyn am 2 flynedd arall)	Natur y Berthynas	7 mlynedd, 3 mis

Amrediad y Gronfa

Amrediad Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

- Eciwita**

 - Cronfa Twf Byd-eang PPC WS
 - Cronfa Ecwitiau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS
 - Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS
 - Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS
 - Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS
- Incwm Sefydlog**

 - Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS
 - Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS
 - Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS
 - Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS
 - Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS

Gwerthoedd Is-gronfeydd PPC

AUM a Chwarterol	
Cronfa	AUM (£)*
Ecwitiau	
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£3,541,081,959
Cronfa Ecwitiau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£3,402,306,986
Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS	£765,494,510
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS	£272,996,065
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£1,524,321,708
Incwm Sefydlog	
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£848,801,549
Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS	£1,026,469,014
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS	£503,405,966
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS	£532,806,310
Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS	£726,549,586
Cyfanswm	£13,144,233,653

Tud 28
* At 31 Mawrth 2025


Gwerthoedd Is-gronfeydd PPC a Pherchnogaeth Ganran*

* Ar 31 Mawrth 2025


Enw'r gronfa	Gwynedd	Powys	Clwyd	Abertawe	Caerdydd	Torfaen	RHCT	Dyfed	Cyfanswm yr Is-gronfa
Ecwitiaïau									
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£418,889,316 (12%)	£74,950,753 (2%)			£151,936,389 (4%)		£1,752,532,949 (50%)	£1,142,772,552 (32%)	£3,541,081,959 (100%)
Cronfa Ecwitiaïau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£460,604,014 (14%)			£1,181,516,220 (35%)	£567,284,914 (16%)	£685,233,031 (20%)	£507,668,807 (15%)		£ 3,402,306,986 (100%)
Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS					£158,178,394 (21%)	£607,316,116 (79%)			£765,494,510 (100%)
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS	£63,020,142 (23%)	£16,067,787 (6%)			£121,192,585 (44%)	£72,715,551 (27%)			£272,996,065 (100%)
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£317,663,995 (21%)	£74,029,248 (5%)	£364,403,494 (24%)	£159,201,546 (11%)	£142,360,840 (9%)	£170,851,465 (11%)	£113,896,342 (7%)	£181,914,778 (12%)	£1,524,321,708 (100%)
Incwm Sefydlog									
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£241,850,969 (29%)	£35,364,960 (4%)	£334,244,087 (39%)	£71,218,915 (8%)	£166,122,618 (20%)				£848,801,549 (100%)
Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS	£233,430,540 (23%)	£28,279,694 (3%)			£161,462,026 (15%)	£266,284,241 (26%)		£337,012,513 (33%)	£1,026,469,014 (100%)
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS					£241,346,135 (48%)	£262,059,831 (52%)			£503,405,966 (100%)
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS	£403,241,482 (76%)	£75,512,582 (14%)		£54,052,246 (10%)					£532,806,310 (100%)
Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS							£726,549,586 (100%)		£726,549,586 (100%)
Cyfanswm yr Awdurdod Cyfansoddol	£2,138,700,458	£304,205,024	£698,647,581	£1,465,988,927	£1,709,883,901	£2,064,460,235	£3,100,647,684	£1,661,699,843	 £13,144,233,653

Ciplun y Gronfa * - Ecwitiau


Twf Byd-eang




Cyfleoedd Byd-eang




Ecwiti Actif Cynaliadwy



Marchnadoedd Datblygol




Cyfleoedd y DU




Ciplun y Gronfa* - Incwm Sefydlog


Credyd Sterling




Credyd Byd-eang




Credyd Aml-ased



Bond Llywodraeth Byd-eang



Bond Enillion Absoliwt



* Ar 31 Mawrth 2025

Mentrau

Prif Gyflawniadau a Diweddariadau

Cronfeydd sydd wedi'u lansio/ eu dirwyn i ben a'u newid				
	Trosolwg	Statws	Manylion	Perchennog:
Diweddariad Rheolwr yr Is-Gronfa	Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS - Newid Is-reolwr, gan ddileu Western a newid gyda Coolabah	Parhaus	- Gostyngodd pwysau Western i tua 1% o'r is-gronfa ac mae'r enillion yn symud i'r rheolwyr eraill yn yr is-gronfa, Fidelity, MetLife a Robeco, yn ogystal â dyraniadau llai i gronfa hylifedd yr is-gronfa. - Mae'r digwyddiad hwn yn benllanw proses adolygu rheolwr parhaus RI lle'r oeddent eisoes yn gweithio tuag at opsiynau newydd ar gyfer Western. - Mae'r digwyddiadau diweddar gyda SEC wedi cynyddu'r broses hon. - Roedd oedi yn y newid oherwydd bod y Gwasanaeth Adneuo angen mwy o ddiwydrwydd dyladwy ar benderfyniad RI i ddewis Coolabah. - Disgwylir cymeradwyaeth ym mis Chwefror 2025. - Dyddiad byw i ddod i ben Ebrill / Mai 2025, oherwydd bod Coolabah yn aros am ddeilliadau cliriach JP Morgan mae angen datrys cwestiwn cyfreithiol a disgwyliwn iddo gael ei ddatrys ym mis Ebrill. - Datryswyd problemau gyda JP Morgan gyda buddsoddiad i ddigwydd ar 29 Mai.	RI/WMUK
Diweddariad Rheolwr yr Is-Gronfa	Ychwanegu Rheolwr Buddsoddi ar gyfer Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygo EPP WS Cymru	Parhaus	- Bwriad i newid Rheolwr o ran Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PPC WS - Byddai hyn yn ychwanegiad i'r rhestr gyfredol yn hytrach na chyfnwedd i ychwanegu Sands Capital ar bwysoliad targed strategol o 6%. - Mae argyhoeddiad uchel yn y strategaeth hon, creda RI y bydd yn arallgyfeirio amlygiad twf yn y gronfa. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r pwysoliad yn gymedrol i'r rheolwyr presennol, ac mae RI yn credu y bydd yn gwella proffil risg / enillion y gronfa. - Mae PPC wedi cymeradwyo'r newid ac mae WMUK wedi cymryd hyn trwy Lywodraethu i'w gymeradwyo. Disgwylir y dyddiad byw ddiwedd mis Mai 2025. - Mae dyddiad 21 Mai wedi'i ddarparu fel dyddiad byw.	RI/WMUK

Tud. 32

Diweddariadau'r Farchnad

			Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Rwsia / Wcráin			Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd	Parhaus	Mae WMUK yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol am unrhyw ddatblygiadau. Mae Pwyllgor Prisio Gwerth Teg WMUK yn trafod hyn yn rheolaidd, ac mae asedau'n dal i gael eu prisio yn unol â hynny. Nid oes unrhyw ddaliadau Rwsiaidd yn unrhyw un gronfeydd PPC
			Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Y Dwyrain Canol			Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Israelaidd.	Parhaus	Ar hyn o bryd 4 o'r gwarannau a ddelir mewn cwmnïau o Israel ar draws dwy is-gronfa; Cronfa Cyfleoedd Byd-eang - 3 chwmni gydag amlygiad o 0.10% ar draws cyfanswm yr AUM. Cronfa Bondiau Llywodraeth Fyd-eang – 1 cwmni gyda daliad yn sefyllfa de minimis. Cyfanswm gwerth tua £13.7m. Mae'r sefyllfa bresennol yn cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU. Ffigurau o ddiwedd mis Mawrth 2025.

Goruchwyllo – Monitro Trydydd Parti

Cynllun 2025				
Darparwr Trydydd Parti	Cyfnod Adrodd	Is-gronfa	Lleoliad	Statws
Northern Trust				
Asiantaeth Trosglwyddo	2025	Pawb	Onsite, Llundain – Medi 2025	N/A
Gweinyddiaeth y Gronfa	2025	Pawb	Onsite, Llundain – Mai 2025	Gwaith maes i'w gwblhau 7 Mai 2025
Dadansoddiad Pris	2025	Pawb	Onsite, Limerick – Mai 2025	Ar y cam cynllunio
Holiadur 'Parti' arall	2025	Pawb	Holiadur – Chwefror 2025	Holiadur wedi'i gwblhau gan NT ac yn cael ei adolygu gan WMUK
Holiadur Diogelwch TG	2025	Pawb	Holiadur – Mawrth 2025	Templed holiadur yn cael ei adolygu gan Waystone Group IT i sicrhau ei fod yn adlewyrchu arfer gorau cyfredol a phrotocolau diogelwch
Diwydrwydd Dyladwy Blynnyddol	2025	Pawb	Holiadur – Mehefin 2025	N/A
Russell Investments				
Diwydrwydd Dyladwy Blynnyddol	2025	Pawb	Onsite, Llundain - 3 Chwefror 2025	Cwblhawyd – Sesiwn ddilynol i'w chynnal ddiwedd gwanwyn 2025

Ymgysylltiad WMUK

Ymgysylltu Allweddol PPC yn Ch1 ac i'r dyfodol

Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y cyfnod:

- Gweithgor Swyddogion 12 Chwefror 2025
- CBLI 12 Mawrth 2025

Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y chwarter nesaf:

- Gweithgor Swyddogion 20 Mai 2025
- CBLI PPC 16 Gorffennaf 2025

Presenoldeb Waystone yn yr Adolygiad o'r Berthynas Strategol:

- 18 Gorffennaf 2025

Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfnod: :

- Cyfarfod Pensiwn Rhondda 26 Mawrth 2025

Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y chwarter nesaf: _

- Dim wedi'i gynllunio ar hyn o bryd

Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion Byrddau Pensiwn PPC

- 30 Ebrill 2025

Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Seminar Buddsoddi LGC, Carden Park - Mawrth 2025

Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Cynhadledd Buddsoddi yng Nghymru, Caerdydd – Ebrill 2025
- Symposiwm Cyfuno Cyhoeddi DG, Belfry - Mai 2025
- Symposiwm Cyfuno LGC, Stratford upon Avon - Gorffennaf 2025

Amserlen Cyfarfod

Adolygiad Gweithredol	Amllder	Amcan
	- Lled-flynyddol - Nesaf: 18 Gorffennaf 2025	- Sicrhau aliniad strategol - Adolygiad ar y cyd o'r busnes a nodau, blaenoriaethau ac amcanion strategol
Mynychwyr		
PPC		Waystone Management (UK) Limited
Chris Moore, Anthony Parnell a dau swyddog Adran 151 / Dirprwy swyddog Adran 151		- Karl Midl, Pennaeth Gwlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol, Waystone Management UK - Rachel Wheeler, Pen Swyddog Cynnyrch - Regulated Fund Solutions
Cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu	Amllder	Amcan
	- Chwarterol - Nesaf: 16 Gorffennaf 2025	- Metrigau allweddol - Materion perthnasol - Cyflawni'n strategol
Mynychwyr		
PPC		Waystone Management (UK) Limited
Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI)		- Karl Midl, Pennaeth Gwlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol, Waystone Management UK - Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau - James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau - Russell Investments
Cyfarfodydd Gweithgor Swyddogion	Amllder	Amcan
	- Chwarterol - Nesaf: 20 Mai 2025	- Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas - Darparu diweddariad ar brosiectau neu faterion sydd heb eu datrys - Adolygiad DPA Misol (Data'n cael ei gyflenwi'n chwarterol)
Mynychwyr		
PPC		Waystone Management (UK) Limited
Gweithgor Swyddogion (GS)		- James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau - Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau - Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau - Presenoldeb Waystone ad-hoc o adrannau swyddogaethol (yn ôl yr angen): - Goruchwyliaeth Rheoli Buddsoddiadau CIO - Pennaeth Cynnyrch - Pennaeth Cydymffurfio - Pennaeth Goruchwyllo - Russell Investment

Amserlen Cyfarfod yn parhau

Diweddariad yr Awdurdod Lletya	Amllder	Amcan
	Bob hanner-wythnos	Awdurdod Lletyol Rheolaidd – WMUK i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes
Mynychwyr		
PPC - Anthony Parnell - Tracey Williams		Waystone Management (UK) Limited - Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau - James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau - Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau - Rheolwr Gwasanaeth Cleient (fel bo'r angen)
Cadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd Pensiwn	Amllder	Amcan
	Blynnyddol	Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Mynychwyr		
PPC Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol		Waystone Management (UK) Limited - Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau - James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau - Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau - Russell Investments
Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn	Amllder	Amcan
	- Lled-flynyddol 30 Ebrill 2025	Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Mynychwyr		
PPC - Cadeiryddion yr Awdurdodau Cyfansoddol - Awdurdod Lletya		Waystone Management (UK) Limited - Tim Perthynas Waystone - Russell Investment
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr	Amllder	Amcan
	- Blynnyddol 15 / 16 Hydref 2025	Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM)
Mynychwyr		
PPC Agored i bawb sy'n gysylltiedig â PPC		Waystone Management (UK) Limited - Waystone Client Team including Exec Team - Northern Trust - Russell Investments a Rheolwyr Buddsoddi eraill - Ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. bFinance/Hymans)

Diolch.

Tîm Perthynas

Enw: James Zealander
Swyddogaeth: Uwch Reolwr Perthnasau
Rhif: +44 (0)7522 348 474
E-bost: James.Zealander@waystone.com

Heidi Robinson
Rheolwr Perthynas
+44 (0) 7843 804917
E-bost: Heidi.Robinson@waystone.com

Enw: Richard Thornton
Swyddogaeth: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau
Rhif: +44 (0) 7765 220277
E-bost: Richard.Thornton@waystone.com

Cyswllt Gweithredol

Enw: Karl Midl
Swyddogaeth: Pen Swyddog y Wlad, DU a Phrif Swyddog Gweithredol
Rhif: +44 (0)7951 266225
E-bost: karl.midl@waystone.com


Cydbwyllgor Llywodraethu PPC – Crynodeb o Berfformiad Ch1 2025

Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Gostyngodd ecwitiai byd-eang a marchnadoedd incwm sefydlog yn nhermau sterling yn y chwarter cyntaf. Fe wnaeth dryswch ynghylch gweithredu tariffau, ansicrwydd geo-wleidyddol, ac arwyddion o deimladau gwannach ymysg defnyddwyr yr UD achosi mwy a mwy o nerfusrwydd yn y farchnad, gan hel buddsoddwyr i chwilio am asedau 'hafan diogel'. Roedd yr Unol Daleithiau yn faich ar ecwitiai byd-eang, gydag enwau technoleg yn tanberfformio. Torrodd aur drwy'r trothwy \$ 3,000 yr owns troy, gan daro uchafbwyntiau ffres wrth hedfan i ddiogelwch.

Cododd cynnyrch gilt y DU wrth i farchnadoedd addasu i'r posibilrwydd o lai o doriadau cyfradd nag a brisiwyd yn flaenorol, gan ddringo ymhellach ar bryderon am bolisiau'r UD a safiad 'hawkish' y Federal Reserve. Yn ddomestig, mae buddsoddwyr yn poeni am allu'r llywodraeth i hybu twf ac adfer cyllid cyhoeddus. Wrth i Fanc Lloegr ostwng cyfraddau 25 pwynt sylfaen (bps) i 4.5%, fe wnaeth hefyd haneru ei ragolwg twf 2025 i 0.75% a rhybuddio am chwyddiant cynyddol, a gyrhaeddodd 3.0% ym mis Ionawr cyn arafu i 2.8% ym mis Chwefror. Dros y cyfnod cododd y cynnyrch ar giliau 10-mlynedd meincnod o 11 bps i 4.68%. Perfformiodd ecwitiai'r DU yn well na'r mynegai byd-eang ac roeddent yn ail yn unig i Ewrop wrth i fuddsoddwyr chwilio am ddewisiadau amgen i stociau UD gwerth uchel. Ynni a thelathrebu oedd y sectorau a berfformiodd orau. Fe wnaeth sterling – fel y rhan fwyaf o arian cyfred – gryfhau yn erbyn doler yr UD ond dibrisiodd yn erbyn yr ewro a yen Japan.

Perfformiad dosbarth asedau – y Chwarter hyd yma (Mawrth 2025)



Meincnodau: Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Ecwiti Marchnadoedd Datblygol (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB)), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer swyddogion PPC yn seiliedig ar berfformiad gan Northern Trust. Mae dyddiadau cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall dyddiadau cychwyn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-3.8	1.2	5.4	12.5	9.4
Net	-3.9	0.9	5.0	12.1	9.0
Mynegai Net MSCI AC World*	-4.3	3.1	7.0	13.9	10.7
Enillion dros ben (gros)	0.5	-1.9	-1.6	-1.4	-1.3
Enillion dros ben (Net)	0.4	-2.2	-2.0	-1.8	-1.7

Dyddiad Cychwyn: 31 Ionawr 2019
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025
Meincnod: Mynegai MSCI AC World Cyfanswm Enillion Net GBP

*Mae'r ffigyrau'n cynnwys saib yn y perfformiad ym mis Tachwedd 2024 wrth bontio'r Gronfa.
Amcan: Nod yr is-gronfa yw cyflawni adbrisiant cyfalaf hirdymor, net o ffioedd.
Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt negyddol a gorffennodd o flaen y meincnod ar sail gymharol. Nid oedd gogwydd twf y Gronfa o gymorth, tra bod ei amlygiad gwerth yn fuddiol mewn cyfnod cadarnhaol i'r ffactor. O ran sectorau, gwobrwywyd y dewis stoc o fewn nwyddau dewisol defnyddwyr, yn enwedig y tanbwysau i Tesla a gorbwysau i AutoZone. Roedd y dewis o fewn gofal iechyd (gorbwysau CVS Health) hefyd yn effeithiol. Fe wnaeth tanbwysau i, a'r detholiad o fewn technoleg (tanbwysau Nvidia, Apple) roi hwb pellach i enillion dros ben. Fodd bynnag, fe wnaeth y detholiad o fewn diwydiannau dynnu oddi ar enillion dros-ben pellach.

Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-2.0	6.2	8.7	15.3	12.1
Net	-2.0	6.0	8.4	15.0	11.8
Mynegai MSCI AC World Net	-4.3	4.9	7.6	14.3	11.0
Enillion dros ben (gros)	2.3	1.3	1.1	1.0	1.1
Enillion dros ben (Net)	2.3	1.1	0.8	0.7	0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 31 Ionawr 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Meincnod: Mynegai Cyfanswm Enillion Net MSCI AC World GBP

Amcan: Nod yr is-gronfa yw cyflawni adbrisiant cyfalaf hirdymor, net o ffioedd.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt negyddol a gorffennodd o flaen y meincnod ar sail gymharol. Yn amgylchedd y farchnad, nid oedd amlygiad twf y Gronfa a'r gogwydd i gapiau bach yn cael eu gwobrwyo, tra bod ei amlygiad gwerth yn fuddiol. Mewn sectorau, fe wnaeth amlygiad tanbwysau i, a dewis stoc o fewn technoleg gwybodaeth gyfrannu'r gadarnhaol gan gynnwys tanbwysau i Broadcom, Nvidia ac Apple. Roedd hyn er gwaethaf yr effaith negyddol o orbwysau i TSMC. Roedd y dewis stoc o fewn ariannol (gorbwysau Commerzbank, BNP Paribas) a nwyddau dewisol defnyddwyr (tanbwysau Tesla) yn effeithiol. Roedd dyraniadau a dewis stoc o fewn gofal iechyd hefyd yn fuddiol (gorbwysau Roche). Mewn mannau eraill, roedd gorbwysau i, a dewis stoc o fewn deunyddiau wedi helpu, yn enwedig gorbwysau i AngloGold, a elwodd o brisiau aur uchel iawn. Fodd bynnag, roedd amlygiad tanbwysau i gyfleustodau a'r dewis stoc o fewn diwydiannau (gorbwysau Delta Airlines, United Airlines) yn ddigymorth, gan bwyso ar enillion.

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	-4.7	0.5		8.7
Net	-4.8	0.2		8.3
Mynegai MSCI AC World Net	-4.3	4.9		13.4
Enillion dros ben (gros)	-0.4	-4.4		-4.7
Enillion dros ben (Net)	-0.5	-4.7		-5.1

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Mehefin 2023

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Meincnod: Mynegai Cyfanswm Enillion Net MSCI AC World GBP

Amcan: Nod yr is-gronfa yw cyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf) sydd gyfwerth â Mynegai Cyfanswm Enillion Net MSCI AC World GBP + 1.5% y flwyddyn, net o ffioedd, dros gyfnod treigl o bum mlynedd.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt negyddol a gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Nid oedd gogwydd y Gronfa tuag at dwf a stociau cap bach yn ddefnyddiol. Mewn sectorau, roedd tanbwysau i, a'r dewis o fewn diwydiannau (gorbwysau Recruit Holdings, tanbwysau Siemens) yn aflwyddiannus. Nid oedd y dewis gwarantau o fewn prif gynnyrch defnyddwyr (gorbwysau Diageo) yn ddefnyddiol chwaith. Roedd ffactorau allweddol eraill a effeithiodd ar berfformiad yn cynnwys gorbwysau i'r cwmni gofal iechyd Novo Nordisk a'r cwmni technoleg TSMC. Fodd bynnag, roedd tanbwysau i, a'r dewis o fewn technoleg (tanbwysau Nvidia ac Apple) yn bositif ar y cyfan, ac wedi cyfyngu ar danberfformiad pellach. Gwobrwywyd y dewis o fewn nwyddau dewisol defnyddwyr (tanbwysau Tesla) hefyd.

Sylwadau ar y Gronfa Marchnadoedd Datblygol

Fe wnaeth y Mynegai Marchnadoedd Datblygol MSCI (EM) ddechrau yn gadarnhaol yn 2025 gydag enillion o 2.9%. Fe wnaeth y mynegai berfformio'n well nag ecwitiâu marchnadoedd datblygedig - yn enwedig marchnad yr Unol Daleithiau – gyda chymorth perfformiad cryf gan Tsieina a Brasil a doler wannach yr UD. Roedd ansicrwydd polisi gan weinyddiaeth newydd yr UD a'r risg o ryfel masnach yn creu ansicrwydd, er i'r ffaith na osodwyd tariffau ar unwaith roi rhywfaint o ryddhad.

Marchnadoedd llai fel Colombia (+33.3%), Gwlad Pwyl (+31.3%) a'r Weriniaeth Tsiec (+28.7%) arweiniodd y ffordd y chwarter hwn. Cofrestrodd Tsieina gynnydd o 15.0% ar gyfer y cyfnod er gwaethaf ansicrwydd buddsoddwyr ynghylch tariffau masnach UDA-Tsieina yn y dyfodol. Roedd Brasil (+14.0%), De Affrica (+13.8%), De Korea (+4.9%) a Mecsico (+8.6%) hefyd wedi perfformio'n dda. Mewn cyferbyniad, roedd India ar ei hôl hi'r chwarter hwn gyda gostyngiad o 3.0%. Nododd buddsoddwyr y bygythiad o dariffau gan Trump, gyda'i ffocws ar fesurau tariff India ei hun. Fe wnaeth Taiwan danberfformio hefyd, gan suddo 12.6% wrth i bryderon ynghylch tariffau effeithio ar stociau technoleg. Gwlad Thai oedd y perfformiwr gwannaf yn y chwarter cyntaf, gan orffen 13.7% i lawr .

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	-0.1	5.3	2.2	-0.5
Net	-0.3	5.2	1.8	-0.9
Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI + 1.5%	0.2	7.4	3.7	1.1

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025
Meincnod: Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI
Amcan: Cyflawni adbrisiant cyfalaf, yr hyn sydd gyfwerth â Mynegai Net Marchnadoedd Datblygol yr MSCI + 1.5% y flwyddyn, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl cymryd yr holl gostau a ffioedd.
Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt negyddol a gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Mae'r dewis stoc yn sector deunyddiau De Affrica (yn enwedig gorbwysau AngloGold) a thanbwysau i Taiwan (TSMC yn arbennig) wedi bod y prif hwb i berfformiad cadarnhaol. Mae gorbwysau i Brasil a dewis stoc yn y sector deunyddiau (Fresnillo yn y DU, UPL yn India) yn ehangach wedi bod yn fuddiol. Mewn mannau eraill, mae'r dewis stoc mewn marchnadoedd llai (Gwlad Groeg, Saudi Arabia, Gwlad Thai) wedi bod yn fuddiol, tra bod gorbwysau cymedrol i, a'r dewis o fewn Twrci, wedi tynnu oddi ar berfformiad. Y dewis stoc o fewn Tsieina (tanbwysau i lwyfannau technoleg cap mawr - Alibaba, Xiaomi, PDD) ac India (gwasanaethau ariannol – CDS ac enwau diwydiannol - Kaynes, ABB India) fu'r prif amharwyr, er bod tanbwysau i India wedi cyfyngu rhywfaint ar y tanberfformiad. Cyfrannodd safle pro-gylchol y gronfa a'i hamlygiad i werth hefyd dros y chwarter.

Sylwadau ar Farchnad y DU

Fe wnaeth ecwitiâu'r DU berfformio'n well na'r mynegai byd-eang ac roedd yn ail yn unig i Ewrop wrth i fuddsoddwyr chwilio am ddewisiadau amgen i stociau UD gwerth uchel. Ynni a thelathrebu oedd y sectorau a berfformiodd orau. Torrodd y FTSE 100 drwy'r marc 8,500 ganol mis Ionawr, wedi'i hybu gan stociau mwyngloddio a'r posibilrwydd y bydd Rio Tinto a Glencore yn cymryd drosodd y naill neu'r llall. Tarodd y mynegai fwy o uchafbwyntiau newydd, gan dorri'r trothwy 8,800 i gyrraedd record newydd arall ddechrau mis Mawrth. Mae data economaidd gwell na'r disgwyl, arwyddion y gallai'r DU osgoi tariffau'r UD a chanlyniadau enillion cryf yn rhoi hwb i deimlad buddsoddwyr. Ehangodd yr economi 0.1% QoQ yn chwarter olaf 2024 yn erbyn disgwyliadau o grebachu 0.1%. Syrthiodd cyfranddaliadau ym mis Mawrth, gan adlewyrchu marchnadoedd eraill wrth i bryderon am bolisi masnach yr UD gynyddu. Crebachodd yr economi 0.1% ym mis Ionawr ar ôl ehangu 0.4% ym mis Rhagfyr. Roedd hyn yn is na disgwyliadau economegwyr o dwf GDP o 0.1%. Fe wnaeth cynhyrchu diwydiannol a gweithgynhyrchu fethu disgwyliadau hefyd, gan ychwanegu at ofnau am ddiffyg twf yn yr economi a phryderon am effaith polisïau'r Canghellor. Yn ddiweddarach, cafodd ecwitiâu eu hybu gan newyddion calonogol ynghylch chwyddiant, a syrthiodd yn fwy na'r disgwyl ym mis Chwefror, i 2.8% FI ar FI o 3.0%. Roedd chwyddiant craidd yn 3.5%, i lawr o 3.7% y mis blaenorol. Yn y cyfamser, dangosodd y data PMI diweddaraf ehangiad yng ngweithgarwch y sector gwasanaeth ym mis Mawrth, ar 52.5, i fyny o 51.0. Mewn cyferbyniad, gostyngodd y PMI gweithgynhyrchu i 44.9 o 46.9.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti y DU:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.0	7.0	7.3	12.2	5.4
Net	1.0	6.7	7.0	11.8	5.0
FTSE All Share	4.5	10.5	7.2	12.0	6.1
Enillion dros ben (gros)	-3.5	-3.5	0.1	0.2	-0.7
Enillion dros ben (Net)	-3.5	-3.8	-0.2	-0.2	-1.1

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Meincnod: Mynegai FTSE All Share

Amcan: Nod yr is-gronfa yw cyflawni adbrisiant cyfalaf hirdymor, net o ffioedd.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt positif a gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Roedd gogwydd y Gronfa tuag at stociau gwerth yn ffafriol, ond nid oedd y gogwydd tuag at stociau cap bach yn ddefnyddiol. O ran sectorau, roedd y dewis stoc o fewn diwydiannau wedi amharu ar berfformiad, yn enwedig y dyraniad tanbwysau i BAE Systems. Roedd gorbwysau i, a'r dewis o fewn gwasanaethau cyfathrebu hefyd yn aneffeithiol ac yn cynnwys amlygiad gorbwysau i 4imprint Group a WPP. Fodd bynnag, roedd tanbwysau i ddeunyddiau (tanbwysau Glencore) yn help ac yn cyfyngu ar danberfformiad pellach.

Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Cynyddodd Mynegai Bond Agregau Byd-eang Bloomberg (USDH) 1.2% dros y chwarter. Roedd perfformiad bondiau'r llywodraeth yn gymysg wrth i enillion 10-mllynedd ostwng yn yr UD ond cododd yn Ewrop, y DU a Japan. Gwanhaodd doler yr Unol Daleithiau yn erbyn y rhan fwyaf o arian cyfred, yn enwedig y krona Sweden a'r krone Norwy. Roedd gweithredu'r banc canolog yn amrywio dros y cyfnod. Cadwodd y Federal Reserve (Fed) gyfraddau heb eu newid tra bod Banc Canada a Banc Canolog Ewrop (ECB) ill dau wedi gostwng cyfraddau llog 25 pwynt sylfaen (bps) ddwywaith. Fe wnaeth Banc Lloegr dorri cyfraddau 25 bps ym mis Chwefror ond gadawodd nhw heb eu newid ym mis Mawrth. Fe wnaeth Banc Cenedlaethol y Swistir hefyd ostwng cyfraddau 25 bps. Yn gynharach, cododd Banc Japan (BoJ) ei gyfradd bolisi 25 bps i 0.5%, ei uchaf mewn 17 mlynedd.

Fe wnaeth rhychwantau credyd ehangu'n fras dros y cyfnod gyda marchnadoedd cynnyrch uchel a marchnadoedd datblygol yn cofnodi'r rhychwantau mwyaf wrth i'r naratif gwrth-risg gymryd gafael ymysg yr ansicrwydd cynyddol dros bolisi'r UD a risgiau i dwf economaidd byd-eang. Rhychwantau cynnyrch uchel yr UD wnaeth ehangu fwyaf, gan godi 60 bps i 347, o bosibl yn adlewyrchu'r enciliad cyffredinol yn asedau risg yr UD. Ehangodd cynnyrch uchel byd-eang 48 bps i 377 tra bod cynnyrch uchel Ewrop wedi ehangu llawer llai (+25 bps i 334). Yn y farchnad gradd buddsoddi, Ewrop oedd y perfformiwr gorau, gyda gwelliant nodedig yn y rhagolygon economaidd wedi helpu, lle culhaodd rhychwantau 4 bps i 85. Ehangodd rhychwantau gradd buddsoddi mewn mannau eraill. Fel mewn cynnyrch uchel, gwelodd yr Unol Daleithiau yr ehangu mwyaf (+12 bps i 89). Cofnododd y DU hefyd ehangiad dau ddigid yn y rhychwant (+10 bps i 90). Roedd y symudiad mewn rhychwantau gradd buddsoddi byd-eang yn fwy cymedrol (+ 7 bps i 89). Cynyddodd dyled marchnadoedd datblygol arian cyfred lleol (EMD), fel y'i mesurir gan y Mynegai JP Morgan GBI-EM Global Diversified, 4.3%, gan elwa o wanhau eang doler yr UD. O ganlyniad, perfformiodd y mynegai yn well na dyledion arian caled marchnadoedd datblygol, a oedd i fyny 2.3%, fel y'i mesurir gan Fynegai Byd-eang JPM EMBI.

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.2	3.2	0.0	-1.1
Net	2.2	3.0	-0.3	-1.3
Mynegai FTSE World Gvt Bond Index (GBP Hedged)	1.0	3.4	-0.5	-1.9
Enillion dros ben (gros)	1.2	-0.2	0.5	0.8
Enillion dros ben (Net)	1.2	-0.4	0.2	0.6

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025 Meincnod:

Mynegai FTSE World Government Bond (GBP Hedged)

Amcan: Nod yr Is-gronfa yw cyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf), sy'n fwy na Mynegai'r FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged), dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Perfformiodd y Gronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang yn well na'r meincnod y chwarter hwn. Roedd gorbwysau'r Gronfa i gyfraddau ym Mecsico yn allweddol bositif y chwarter hwn – cyferbyniad â chyfnod olaf 2024. Roedd tanbwysau i gyfraddau yn Japan ac Ewrop yn addas i amgylchedd y farchnad. Roedd hyn yn cynnwys tanbwysau i faterion 5- a 10-mllynedd yn Japan a thanbwysau i faterion hirach yn Ewrop. Fodd bynnag, fe wnaeth tanbwysau i Drysorfeydd yr UD lesteirio perfformiad pellach.

O ran rheolwyr, perfformiodd RBC yn well oherwydd tanbwysau yn Japan a gorbwysau i gyfraddau ym Mecsico, Canada a Colombia. Fe wnaeth Colchester hefyd berfformio'n well, hynny hefyd yn sgil gorbwysau ym Mecsico a thanbwysau mewn bondiau Ewropeaidd a Japan.

Cronfa Credyd Byd-Eang:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.6	4.9	0.3	-0.8
Net	1.5	4.7	0.1	-1.0
Mynegai Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)	1.7	4.8	0.9	-0.8
Enillion dros ben (gros)	-0.1	0.1	-0.6	0.0
Enillion dros ben (Net)	-0.2	-0.1	-0.8	-0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Meincnod: Mynegai Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)

Amcan: Nod yr Is-gronfa yw cyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf), sy'n fwy na Mynegai Credyd Agregau Byd-eang Bloomberg Barclays (GBP Hedged), dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Fe wnaeth y Gronfa danberfformio'r enillion meincnod dros y chwarter cyntaf. O fewn amgylchedd y farchnad, er bod safle'r Gronfa mewn credyd gradd buddsoddi Ewropeaidd yn ddefnyddiol, fe wnaeth yr amlygiad gorbwysau i gynnyrch uchel Ewropeaidd (diwydiannol) dynnu oddi ar hyn. Roedd y duedd yr un fath mewn credyd yr UD, gydag amlygiad tanbwysau i radd buddsoddi (ariannol, diwydiannol) yn cyfrannu'n gadarnhaol tra bod amlygiad gorbwysau i ddiwydiannau cynnyrch uchel wedi amharu. Mewn dyled arian caled marchnadoedd datblygol, cyfrannodd tanbwysau i radd buddsoddi yn America Ladin a'r Dwyrain Canol. Fodd bynnag, effeithiwyd yn negyddol ar berfformiad y Gronfa gan safle cyfraddau, yn benodol yn Nhrysorlysoedd yr UD, byndiau'r Almaen a gilts y DU. Roedd amlygiad gorbwysau i fyndiau 10-mlynedd yr Almaen a dyraniadau i filiau-T 1 flwyddyn yn arbennig o ddigymorth.

Yn yr amgylchedd hwn, arhosodd Robeco yn agos at y meincnod o ran amlygiad i risg y farchnad credyd ond llwyddodd i berfformio'n well na'r mynegai credyd byd-eang trwy alffa dewis gwarantau. Roedd perfformiad Metlife yn cyfateb i fynegai credyd yr UD, tra bod Fidelity wedi tanberfformio'r mynegai Credyd Ewropeaidd, yn sgil gorbwysau i barhad yr Almaen cyn y cyhoeddiad ehangu cyllidol.

Cronfa Credyd Aml-ased:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.6	7.4	3.8	3.5
Net	1.5	7.1	3.4	3.2
3 Mis GBP SONIA + 4%	2.1	9.3	8.3	6.8

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Amcan: Cyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis GBP SONIA + 4%, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd. Nid ydym wedi dangos yr enillion dros ben gan mai targed yw hwn.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Dychwelodd y gronfa 1.64% yn Ch1 yn erbyn targed arian parod +4% o 2.14%. O fewn amgylchedd y farchnad, roedd safleoedd credyd a chyfraddau yn bositif tra bod dyraniadau arian cyfred yn aneffeithiol. Mewn cyfraddau, gwobrwywyd amlygiad i Drysorlysoedd yr UD a byndiau'r Almaen tra bod tanbwysau i gilts blwyddyn y DU wedi amharu, fel yn y chwarter blaenorol. Mewn credyd, y prif gyfrannwr positif i berfformiad oedd amlygiad i fenthyciadau banc un-flwyddyn er nad oedd yr effaith o fenthyciadau hirach yn ddefnyddiol. Mewn credyd Ewropeaidd, fe wnaeth amlygiad i ddiwydiannau cynnyrch uchel amharu ar berfformiad, er bod hyn wedi'i leddfu'n rhannol gan ddyraniadau i elfennau ariannol cynnyrch uchel yn y rhanbarth. Roedd amlygiad i radd buddsoddi Ewropeaidd hefyd yn ddefnyddiol. Mewn credyd yn y DU, roedd amlygiad i gynnyrch uchel yn negyddol er bod dyraniadau i elfennau ariannol cynnyrch uchel wedi lleddfu'r effaith. Fe wnaeth dyraniadau i ddyled arian caled marchnadoedd datblygol amharu ar berfformiad, yn bennaf oherwydd amlygiad i'r Dwyrain Canol. Mewn credyd 'securitized', bu manteision o amlygiad i warantau morgeisi masnachol nad ydynt yn rhai asiantaeth, ond yn gwrthbwyso hyn oedd dyraniadau i drosglwyddiadau risg credyd asiantaeth, oedd yn negyddol. Roedd rhwymedigaethau benthykiadau cyfochrog hefyd yn pwysu ar berfformiad.

Yr arbenigwr benthykiadau ICG oedd y rheolwr a berfformiodd orau, gan elwa o berfformiad mewn aeddfedrwydd dyddiad byrrach. Cofnododd Man GLG enillion absoliwt positif hefyd. Mewn cyferbyniad, cofnododd RBC UK (BlueBay), Barings a Voya enillion absoliwt negyddol.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.4	7.7	5.7	4.4
Net	1.3	7.7	5.5	4.2
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.7	7.2	6.3	4.9

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Amcan: Cyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 mis GBP SONIA ynghyd â 2%, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd. Nid ydym wedi dangos enillion dros ben gan mai targed yw hwn.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt positif a gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Cofnododd y tri rheolwr gwaelodol enillion absoliwt positif. Insight oedd y rheolwr a berfformiodd orau o ran enillion cymharol ac fe orffennodd o flaen ei feincnod. Gwobrwywyd cromlin cynnyrch a strategaethau parhad y rheolwr. Mewn cyferbyniad, roedd y dewis gwlad wedi amharu ar berfformiad pellach. Gorffennodd Aegon y tu ôl i'w feincnod. Perfformiodd marchnadoedd gwarantau â chymorth asedau Ewropeaidd (ABS) yn gryf wrth i rychwantau barhau i dynhau ar draws holl sectorau ABS Ewropeaidd, gan sbarduno amodau lle cafwyd dal ddigonedd o gyhoeddiadau cynradd. Fodd bynnag, achosodd cythrwfl y farchnad ar ddiwedd chwarter i rychwantau ehangu. Fe wnaeth Wellington hefyd danberfformio ei feincnod.

Cronfa Credyd Sterling:

	Ch1 2025	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.1	2.7	0.2	-0.9
Net	1.0	2.6	0.0	-1.0
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling plus 0.65%	0.9	3.1	-0.2	-1.3

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2025

Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling Plus 0.65%

Amcan: Nod yr is-gronfa yw cyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sydd gyfwerth â Mynegai Sterling Ewro Merrill Lynch ICE Bank of America ynghyd â 0.65% bob blwyddyn, dros unrhyw gyfnod o dair blynedd ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Fe wnaeth Credyd Sterling berfformio'n well na'r meincnod dros y chwarter. Mae'r Gronfa yn cadw safiad cymharol ofalus mewn credyd, o ystyried rhychwantau credyd tynn a chefnidir economaidd heriol, ochr yn ochr ag ansicrwydd geo-wleidyddol cynyddol. Er bod yr hanfodion yn parhau i fod yn gyfan, mae'n well gan Sterling fod yn ddetholus mewn rhannau penodol o'r farchnad lle mae ganddynt fwy o argyhoeddiad. Mae cynnyrch 'all-in' yn parhau i fod yn ddeniadol ym marchnadoedd bondiau corfforaethol Sterling, gan gynnig rhywfaint o warchodaeth yn erbyn cyfraddau gwaelodol ac anwadalrwydd credyd.

Mae'r diffyg 'spread cushion' mewn credyd yn peri i ni gynnal safiad amddiffynnol yn gyffredinol. Mae Sterling yn ymwybodol o'r canlyniadau negyddol anghymesur mewn credyd os bydd twf yn arafu. Serch hynny, mae'r hanfodion yn parhau i fod yn gryf – mae methdaliadau yn gyfyngedig, ac nid oes unrhyw arwyddion o straen credyd difrifol. Ar ben hynny, mae technegau yn parhau i fod yn gefnogol, ac mae'r galw am gredyd yn gadarn.


Fe wnaeth y rhagolygon economaidd heriol yn y DU arwain at berfformiad gwael gan nifer o sectorau sy'n wynebu defnyddwyr fel adeiladwyr tai, mân-werthwyr a theithio a hamdden. O ganlyniad, y sector nwyddau dewisol defnyddwyr oedd un o'r rhai a amharodd fwyaf ar berfformiad y farchnad dros y cyfnod, gyda thechnoleg a deunyddiau sylfaenol yn amharwyr nodedig eraill. Cafodd fanciau yn arbennig chwarter cryf ymysg rhai diweddariadau enillion cadarn. Mae banciau hefyd yn gymharol ddiogel rhag pryderon tariff masnach.



PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU
Mandad Dyrannwr Ecwiti Preifat

Ystyriaethau risg

Risg o golledion cyfalaf	Gallai gwerth buddsoddiadau a'r incwm ohonynt fynd i lawr ac i fyny ac efallai na chaiff buddsoddwyr y swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol yn ei ôl
Risg y farchnad	Risg y farchnad yw'r risg o golledion buddsoddiadau yn sgil effeithiau negyddol y marchnadoedd cyfalaf ar berfformiad cyffredinol y gronfa
Risg credyd	Bydd gan y gronfa fodel ariannu ymrwymiad buddsoddwyr/tynnu i lawr sy'n amlygu'r cerbyd buddsoddi i risg credyd ei fuddsoddwyr. Os yw buddsoddwr yn methu â chydymffurfio â hysbysiad tynnu i lawr, efallai na fydd y cerbyd buddsoddi yn medru talu ei ymrwymïadau pan yn ddyledus
Risg hylifedd	O ystyried natur anhylifol y buddsoddiadau ecwiti preifat, mae buddsoddi mewn ecwiti preifat yn destun risg hylifedd asedau. Mae'r risg hylifedd o ganlyniad i'r tebygolrwydd y bydd colled o werth ased net cyfredol yn cael ei wireddu os byddai angen gwerthu ased yn y gronfa i'w gwerthu yn gyflym yn y farchnad eilaidd i gwrdd ag ymrwymïadau'r gronfa
Risg arian	Mae buddsoddiadau mewn cwmnïau neu fuddsoddiadau sy'n cael eu galw mewn arian cyfred ac eithrio arian cyfred perthnasol y gronfa yn gwneud y gronfa yn agored i'r risg o golledion os bydd arian cyfred tramor yn colli gwerth
Risg gwrthbartion	Gall y buddsoddiadau targed ddefnyddio offerynnau deiliadol er dibenion rhagfantoli arian cyfred, sy'n gwneud y gronfa yn agored i'r risg o wrthbarti yn diffygdlu.
Risg gweithredol	Mae risgiau gweithredol yn risgiau o golledion sy'n dod o ganlyniad i brosesau annigonol neu fethiannau mewnol, pobl a systemau, neu o ddigwyddiadau allanol a wneir gan Schroders Capital a bydd rheolwyr y gronfa yn buddsoddi ar y cyd



\$99bn

o asedau yn cael eu rheoli¹

400+

pobl broffesiynol yn y maes buddsoddiadau

\$20bn

o fuddsoddiadau y flwyddyn

25

o leoliadau ar chwe cyfandir

725+

o bobl broffesiynol wedi ymrwymo i asedau preifat

¹AUM fel ar Ch4 2024 yn cynnwys powdr sych.

Ecwiti Preifat Schroders Capital

Ein gwahaniaethau



ecwiti preifat gyda galluedd datrysiadau integredig

- Buddsoddiadau uniongyrchol/cyd-fuddsoddiadau, buddsoddiadau eilaidd a chynradd
- Cyllideb gaeedig, cronfeydd rhannol hylifol a datrysiadau mandad
- Cynaliadwyedd ac Effaith integreiddio ar draws yr holl fuddsoddiadau



ar segmentau ecwiti preifat gyda'r adenillion uchaf

- Ffocws ar dwf trawsnewidiol mewn cwmnïau sy'n elfennol gryf
- >50% o fuddsoddiadau blynyddol mewn buddsoddiadau uniongyrchol/cyd-fuddsoddiadau a rhai wedi'u harwain gan GP
- 76%¹ ymrwymiad cynradd mewn rheolwyr gyda mynediad cyfyngedig



gydag arweinyddiaeth gadarn a dull lleol-am-leol yn fyd-eang

- daliadaeth >15 mlynedd o benderfynwyr allweddol ²
- 70+ gweithwyr proffesiynol buddsoddi a rheoli risg ar 3 chyfandir
- 'Un tîm' a thyfu o'r diwylliant

Tud
Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn ganllaw ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd.
Cyhoeddi: Schrodgers Capital, 2025.

¹Cynnwys yr holl ymrwymadau cynradd a wnaed gan Schrodgers Capital rhwng mis Ionawr 2020 a mis Rhagfyr 2023. ²Aelodau'r Pwyllgor Buddsoddi.

17%

IRR ar draws yr holl fuddsoddiadau¹

4%

y.f. perfformiad rhagorol dros MSCI ACWI²

\$2.5bn

o fuddsoddiadau y flwyddyn

270

buddsoddiadau uniongyrchol/cyd-fuddsoddiadau

3.0x

MOIC ar 82 o fuddsoddiadau uniongyrchol/cyd-fuddsoddiadau wedi'u gwireddu³

Perfformiad a ddangosir yn net o ffioedd, treuliau a ffioedd perfformiad y gronfa sylfaenol a gros ffioedd, treuliau a ffioedd perfformiad cronfa Schrodgers Capital, mewn € ac fel ar Ch4 2024. ¹Gan gynnwys holl fuddsoddiadau Ecwiti Preifat Schrodgers Capital o 2010–2023. ²Yn seiliedig ar IRR 2010–2023 o'i gymharu â MSCI ACWI Long Nickels PME. ³Mae'r lluosog a wireddwyd yn seiliedig ar 82 o wireddiadau a gwirediadau rhannol fel ar Ch4 2024.

Adeiladu partneriaeth ymddiriedol hirdymor gyda PPC

Cronfeydd Cyfranogol

- Cronfa Bensiwn Clwyd
- Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Cronfa Bensiwn Powys
- Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg



PPC BLWYDDYN I

PPC Blwyddyn I wedi'i ddyrannu'n llawn heb Echel J

Schroders Capital PPC Ecwiti Preifat Byd-eang I L.P.



Buddsoddiadau a gwblhawyd




Ymrwymiad PPC



Wedi ymrwymo i fuddsoddiadau sylfaenol



Net TVPI¹



Net IRR²

Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn ganllaw ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd.

Synhonnell: Schroders Capital, 2025.

Nifer y buddsoddiadau a gwblhawyd a'r symiau a glustnodwyd fel ar Ch1 2025. Mae'r perfformiad fel ar Ch4 2024 ac mae'n net o ffioedd sylfaenol, treuliau a llog a gariwyd ac mae'n net o ffioedd a threuliau Schroders Capital.


TVPI = cyfanswm gwerth i'w dalu mewn cyfalaf, yn mesur cyfanswm gwerth buddsoddiad (gwerth a wireddwyd a heb ei wireddu) i swm y cyfalaf a gyfrannwyd. Mae TVPI net yn net o'r holl dreuliau a ffioedd.

IRR = Y gyfradd ddisgownt sydd gyfwerth â'r gwerth net presennol o fewnlif arian parod buddsoddiad â'i allbynnau arian parod. Mae IRR net yn net o'r holl ffioedd a threuliau.


PPC Blwyddyn I

Cylch Allanol = Targedau PPC 2023¹ a Chylch Mewnol = gwir ar gyfer Blwyddyn I²


Cymysgedd daearyddol



Cymysgedd sectorau



Math o fuddsoddiad



1. Ffynhonnell: Schroders Capital, 2025.
2. Mae'r amlygiad targed yn seiliedig ar ddyraniad targed y gronfa ar ymrwymadau a gwedd blwyddyn 2023 PPC. 2. Mae'r amlygiad yn seiliedig ar ddyraniad targed y gronfa fuddsoddi berthnasol ac ar ymrwymadau. Sectorau a daearyddiaeth a gynhwysir gan dargedau cronfa sylfaenol. Data a ddangosir fel ar Ch4 2024.
Mae'r dyraniadau buddsoddi yn ddangosol. Gall Schroders Capital addasu ei ddyraniad daearyddol, strategaeth, cam fel y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn cyflawni amcanion y gronfa. VY = Blwyddyn.

PPC Blwyddyn I: Crynodeb

- Mae PPC I bellach wedi'i ddyrannu'n llawn: cau 14 buddsoddiad ac ymrwymo £171m, o fewn 18 mis ar ôl ei lansio
- Mae'r portffolio wedi cyrraedd prisiad o 1.2x TVPI net yn y flwyddyn gyntaf, gan ddangos hanfodion prisio cadarn yn gynnar yn nhaith fuddsoddi PPC I
- Mae'r portffolio yn arallgyfeirio'n dda ar draws strategaethau, rhanbarthau, mathau o fuddsoddiadau a sectorau
- Mae'r sylfaen gychwynnol yn darparu man cychwyn cadarn ar gyfer datblygiad parhaus y portffolios

Tu
ce
00

Mae'r perfformiad yn y gorffennol yn ganllaw ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd.
Ffynhonnell: Schroders Capital, 2025.

Mae'r TVPI net a ddangosir yn net o ffioedd a threuliau rheoli Schroders Capital ac yn net o ffioedd cronfa sylfaenol, treuliau a llog wedi'i gario.

Mae'r logos a ddangosir yn eiddo i'r endidau perthnasol.

greenbelt
CAPITAL PARTNERS



BOWMARK
CAPITAL

VITRUVIAN
PARTNERS



KNOX-LANE

NORD ANGLIA



TENZING

TRINITY HUNT
PARTNERS

KPS
CAPITAL PARTNERS, LP

Sprints

EMERAM




PPC BLWYDDYN II

PPC Blwyddyn II – bron yn gwbl ymrwymedig

Schroders Cyfalaf PPC Ecwiti Preifat Byd-eang II L.P. – cyfanswm yr ymrwymiad £170.5m

Schroders Cyfalaf PPC Ecwiti Preifat Byd-eang II L.P.



Buddsoddiadau a gwblhawyd




Ymrwymiad PPC



Wedi ymrwymo i fuddsoddiadau sylfaenol



Net TVPI¹



Net IRR²

¹ Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn ganllaw ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd.

² Ffynhonnell: Schroders Capital, 2025.

Nifer y buddsoddiadau a gwblhawyd a'r symiau a glustnodwyd ym mis Ebrill 2025. Mae perfformiad fel ar Ch4 2024 ac yn net o ffioedd sylfaenol, treuliau a llog a gariwyd ac mae'n net o ffioedd a threuliau Schroders Capital.


³ TVPI = cyfanswm gwerth i'w dalu mewn cyfalaf, yn mesur cyfanswm gwerth buddsoddiad (gwerth a wireddwyd a heb ei wireddu) i swm y cyfalaf a gyfrannwyd. Mae TVPI net yn net o'r holl dreuliau a ffioedd.

⁴ IRR = Y gyfradd ddisgownt sydd gyfwerth â'r gwerth net presennol o fewnlif arian parod buddsoddiad â'i allbynnau arian parod. Mae IRR net yn net o'r holl ffioedd a threuliau.


PPC Blwyddyn II

Cylch Allanol = Targedau PPC 2024¹ a Chylch Mewnol = gwir ar gyfer Blwyddyn II²


Cymysgedd daearyddol



Cymysgedd sectorau



Math o fuddsoddiad



¹Yn honnoll: Schrodgers Capital, 2025.

²Mae'r amlygiad targed yn seiliedig ar ddyraniad targed y gronfa ar ymrwymiadau a gwedd blwyddyn 2024 PPC. ²Mae amlygiad yn seiliedig ar ymrwymiadau'r gronfa fuddsoddi berthnasol. Sectorau a daearyddiaeth a gynhwysir gan dargedau yn seiliedig ar ymrwymiadau gwirioneddol. Data a ddangosir fel ar Ch4 2024.

Mae'r dyraniadau buddsoddi yn ddangosol. Gall Schrodgers Capital addasu ei ddyraniad daearyddol, strategaeth, cam fel y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn cyflawni amcanion y gronfa. VY = Blwyddyn.

PPC Blwyddyn II: Crynodeb

- Mae PPC II wedi cael dechrau cadarn yn ei flwyddyn gyntaf, gydag IC wedi'i gymeradwyo a'i gau bellach gan ddod i gyfanswm o £160m mewn 19 buddsoddiad
- O Ch4 2024, mae PPC II wedi cyrraedd prisiad o 1.1x TVPI net yn y 9 mis cyntaf
- Rydym wedi sicrhau mynediad i un o'r enwau mwyaf o ran Menter, ond mae wedi bod yn heriol
- Ar gyfer y £10m sy'n weddill sydd heb ei glustnodi, rydym yn disgwyl ei ddefnyddio yn yr isod:
 - Bargen Cymru (lle mae gennym gwmni gwyddorau bywyd ag argyhoeddiad uchel sydd wedi'i gymeradwyo gan IC)
 - Cronfa US VC â mynediad cyfyngedig iawn sydd wedi'i chymeradwyo gan IC
 - Cyfle eilaidd dan arweiniad GP aml-ased neu ased unigol yr UD neu'r UE

Tu
o
ne
2024

Bydd yw perfformiad yn y gorffennol yn ganllaw ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd.
Ffynhonnell: Schroders Capital, 2025.

Mae TVPI net a ddangosir yn net o ffioedd a threuliau rheoli Schroders Capital ac yn net o ffioedd cronfa sylfaenol, treuliau a llog wedi'i gario.
Mae'r logos a ddangosir yn eiddo i'r endidau perthnasol.





PPC BLWYDDYN III

Dyraniadau Profforma Blwyddyn III

Portffolio wedi'i gynllunio ar gyfer Schroders Capital PPC Ecwiti Preifat Byd-eang III L.P.

Cronfa	Pwyslais	Math	Strategaeth	Daearyddiaeth	SFDR	Ymrwymiad	
						£m	%
Interlock II	Canolbwyntio ar ddarparwyr gwasanaeth allanol sy'n cael eu gyrru gan bobl	Cynradd	Bach/canolig	UDA	-	9.2	5.0%
DFW VIII	Pwyslais ar fodelau busnes sy'n cael eu gyrru gan gydymffurfiaeth	Cynradd	Bach/canolig	UDA	-	9.2	5.0%
Novacap VII	Arbenigwr technoleg gyda phrofiad perchennog/gweithredwr	Cynradd	Mawr	UDA	-	9.2	5.0%
Bain NA XIV	Canolbwyntio ar bryniannau mawr ledled Gogledd America	Cynradd	Mawr	UDA	Erthygl 8	9.2	5.0%
[Deiliad lle cynradd hwyr yr UDA]	Deiliad lle ar gyfer cynradd hwyr addas UDA	Cynradd	Bach/canolig	UDA	i'w gadarnhau	9.2	5.0%
Emeram III	Canolbwyntio ar y farchnad sy'n siarad Almaeneg	Cynradd	Bach/canolig	Ewrop	Erthygl 6	9.2	5.0%
Endless Fund VI	Busnesau yn y DU sy'n tanberfformio sydd angen ailstrwythuro ariannol/gweithredol	Cynradd	Bach/canolig	Ewrop	Erthygl 8	9.2	5.0%
Hg Genesis XI	Canolbwyntio ar fusnes meddalwedd a gwasanaethau canolig yn y farchnad	Cynradd	Bach/canolig	Ewrop	Erthygl 8	9.2	5.0%
[Deiliad lle Ewrop]	Deiliad lle ar gyfer cynradd hwyr addas Ewrop	Cynradd	Bach/canolig	Ewrop	i'w gadarnhau	9.2	5.0%
[Deiliad lle India / Tsiena]	Deiliad lle ar gyfer cynradd addas Indiaidd/Tsieineaidd	Cynradd	Mentro	Asia	i'w gadarnhau	9.2	5.0%
[Deiliad lle ar gyfer eilaidd]	Deiliad lle ar gyfer un addas a arweinir gan GP	Eilaidd	Estynedig	UDA	i'w gadarnhau	5.0	2.7%
Buddsoddiad uniongyrchol/cyd-fuddsoddiad Cymreig	Deiliad lle ar gyfer cytundeb Cymru	Cyd-fuddsoddiadau	Estynedig	Ewrop/DU	-	5.0	2.7%
SC Global Innovation	Prif gwmnïau menter blaenllaw	Integredig	Mentro	Byd-eang	-	9.3	5.0%
SC Global Direct	Cronfa gyd-fuddsoddi estynedig fyd-eang	Cyd-fuddsoddiadau	Bach/canolig	Byd-eang	Erthygl 8	13.0	7.0%
SC Europe Direct	Cronfa gyd-fuddsoddi estynedig Ewropeaidd	Cyd-fuddsoddiadau	Bach/canolig	Ewrop	Erthygl 8	10.0	5.4%
SC UK Innovation LTAF	Canolbwyntio ar dechnoleg a gwyddorau bywyd y DU	Integredig	Mentro	DU	-	18.5	10.0%
SC Secondaries	Byd-eang GP-dan arweiniad cronfa eilaidd â ffocws	Eilaidd	Bach/canolig	Byd-eang	Erthygl 8	32.0	17.3%
Cyfanswm						185.0	100.0%

Schroders Capital Cronfa

Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn ganllaw ar gyfer perfformiad yn y dyfodol ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd.

Ffynhonnell: Schroders Capital, 2025.

Ymrwymiad fel ar Ch4 2024. Ni all arallgyfeirio warantu canlyniadau perfformiad cadarnhaol nac amddiffyn rhag colli prifswm. Ni ellir sicrhau y bydd Schroders Capital yn cyflawni'r dyraniadau buddsoddi wedi'u targedu. Ni all fod unrhyw warant y bydd unrhyw amcan neu ganlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

PPC III: Crynodeb

- Rydym wedi nodi sawl cyfle posibl ar gyfer portffolio PPC III sy'n cynnwys arallgyfeirio eang ar draws strategaeth, sector a daearyddiaeth
- Yn unol â blynyddoedd blaenorol, rydym yn dymuno defnyddio ystod o GPs ag argyhoeddiad uchel
- Byddai gweithredu PPC III trwy gronfeydd Schroders Capital yn cynnwys:
 - Menter yn y DU i gael ei gweithredu drwy LIFTS i gael mynediad at bortffolio menter amrywiol yn y DU a chefnogi mentrau Mansion House
 - Menter fyd-eang i'w gweithredu trwy Schroders Capital Global Innovation XII i sicrhau mynediad at enwau menter blaenllaw ac adeiladu portffolio menter byd-eang amrywiol
 - Cyd-fuddsoddiadau i'w gweithredu trwy Schroders Capital Global Direct IV a Schroders Capital Europe Direct IV i adeiladu portffolio cyd-fuddsoddi amrywiol
 - Eilaidd i'w gweithredu trwy Schroders Capital Continuation Opportunities III i adeiladu portffolio eilaidd amrywiol

Tudalen 16

Ffynhonnell: Schroders Capital, 2025.

Ni all fod unrhyw warant y bydd unrhyw amcan neu ganlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni. Ni all arallgyfeirio sicrhau elw nac amddiffyn rhag colli prifswm.

Nid ydych chi chi'r logos a ddangosir yn eiddo i'r endidau perthnasol.



DFW CAPITAL PARTNERS



EMERAM

NOVACAP 






CYTUNDEB CYMREIG CYNTAF?

Cytundeb Cymreig cyntaf ?

Mae'r astudiaethau achos cyfle hyn yn adlewyrchu ein dull disgybledig o gyrchu, asesu a gweithredu ar fuddsoddiadau yng Nghymru

Cwmni biotechnoleg o Gymru yn barod i gychwyn treialon clinigol Cam 2

Maint	Cyfres A codi \$140m (gordanysgrifio)
Crynodeb	Cyfle i fuddsoddi mewn cwmni niwroseiciatrieg gyda phiblinell cam clinigol wedi'i dilysu gyda photensial gorau yn y dosbarth
Pam rydym yn ei hoffi	— Yn bodloni ein meini prawf buddsoddi biotechnoleg: Cam clinigol (Cam 2 yn barod), Moleciwl bach, potensial gorau yn y dosbarth, potensial gwerthu <i>multi-blockbuster</i> , wedi'i leoli yn y DU (Cymru)
Marchnad	— Mae MDD yn glefyd mynych a gwanychol — 32m wedi cael diagnosis yn yr UDA a'r UE — Cyfraddau ysbaid isel (30% gyda'r llinell gyntaf)
Dyraniad	— Cyfanswm Dyraniad Schroders Capital i'w ddatgelu pan ganiateir



Mae buddsoddiad wedi'i gymeradwyo gan IC ac mae bellach wedi symud i drafodaethau cyfreithiol gyda'r bwriad o weithredu ar fin digwydd

Bydionnell: Schroders Capital, 2025.

Gwybodaeth Bwysig (1/2)



Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gryo benodol ynglŷn â chynnig buddiannau partneriaeth gyfyngedig (y 'Buddiannau') cronfa/cronfeydd Schroders Capital a grybwyllir yma (y 'Gronfa') sy'n cael ei noddi a'i chynghori gan Schroders Capital Management (y Swistir) AG ('Schroders Capital'). Mae'r wybodaeth a nodir yma yn gymwys, yn ei chyfanrwydd, gan Femorandwm Lleoliad Preifat Cyfrinachol y Gronfa (y 'Memorandwm') a dogfennau cyfansoddiadol y Gronfa. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yma wedi'i pharatoi ar sail gyfrinachol yn unig er budd unigolion ac endidau dethol, cymwys at ddibenion gwybodaeth a thrafod yn unig mewn cysylltiad â lleoliad preifat buddiannau partneriaeth gyfyngedig y Gronfa ac nid yw'n gyfystyr â chynnig i werthu neu ddeisyfiad am gynnig i brynu buddiant yn y Gronfa. Dim ond yn unol â'r Memorandwm y gwneir unrhyw gynnig neu ddeisyfiad o'r fath, sy'n disgrifio, ymhlith pethau eraill, risgiau penodol sy'n gysylltiedig â buddsoddiad yn y Gronfa ac sy'n gymwys yn ei gyfanrwydd i'r wybodaeth a nodir yma. Dylid darllen y Memorandwm, gan gynnwys unrhyw atodiad (a all gynnwys gwybodaeth fwy diweddar na'r wybodaeth a ddarperir yma) yn ofalus cyn gwneud unrhyw fuddsoddiad yn y Gronfa. Mae'r holl wybodaeth a gynhwysir yma yn berchnogol ac yn gyfrinachol. Gwaherddir unrhyw atgynhyrchu neu ddsbarthu'r ddogfen hon, yn gyfan gwbl neu'n rhannol neu ddatgelu ei chynnwys, heb ganiatâd ysgrifenedig Schroders Capital ymlaen llaw. Rhaid dychwelyd y ddogfen hon i Schroders Capital ar gais. Mae'r data ystadegol a datganiadau ffeithiol eraill a gynhwysir yma wedi'u cael o ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd neu ffynonellau eraill a ystyrir gan Schroders Capital yn ddibynadwy, ond ni wneir unrhyw sylwadau ynghylch eu cywirdeb a'u cyflawnder. Mae rhai datganiadau yn mynegi barn Schroders Capital ar y dyddiad a nodwyd, a allai fod yn destun newid. Efallai y bydd gwybodaeth ychwanegol a/neu wybodaeth arall ar gael yn ddiweddarach. Efallai y bydd Schroders Capital yn dewis diweddarau'r wybodaeth ar ryw adeg yn y dyfodol, ond yn benodol yn gwadu unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny, hyd yn oed os bydd amcangyfrifon neu ddisgwyliadau Schroders Capital yn newid. Nid yw'r deunydd wedi'i fwriadu i ddarparu, ac ni ddylid dibynnu arno ar gyfer, cyngor cyfrifyddol, cyfreithiol neu dreth, neu argymhellion buddsoddi. Credir bod y wybodaeth yma yn ddibynadwy, ond nid yw Schroders Capital (nac unrhyw un o'i gysylltiedigion) yn gwarantu ei bod yn gyflawn nac yn gywir. Ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gangymeriadau ffaith neu farn. Dylai derbynwyr y ddogfen hon fod yn ymwybodol nad yw perfformiad cronfeydd Schroders Capital yn y gorffennol o reidrwydd yn arwydd o'r perfformiad yn y dyfodol y gellir ei ddisgwyl gan fuddsoddwyr ar gyfer y Gronfa. Yn unol â hynny, ni ellir sicrhau y bydd y Gronfa yn cyflawni canlyniadau tebyg neu y bydd y Gronfa yn gallu gweithredu ei strategaeth fuddsoddi neu gyflawni ei amcan buddsoddi. Er bod Schroders Capital a phartner cyffredinol y Gronfa yn bwriadu buddsoddi gyda rhai rheolwyr cronfa a grybwyllir yn y ddogfen hon, ni all fod unrhyw sicrwydd y bydd Schroders Capital neu'r partner cyffredinol yn derbyn dyraniadau gan y rheolwyr cronfa hyn yn eu cronfa fuddsoddi bresennol neu yn y dyfodol neu, os derbynnir dyraniad o'r fath, y bydd perfformiad y rheolwyr cronfeydd hyn yn bodloni neu'n rhagori ar ddisgwyliadau Schroders Capital.

Mae buddsoddiadau anhylifol megis ecwiti preifat yn cario risgiau marchnad a gweithredol arbennig a cholli cyfalaf a dylid eu hystyried gan fuddsoddwyr soffistigedig sy'n deall natur y prif risgiau hyn, a phrif risgiau eraill. Mae pob buddsoddiad, domestig a thramor, yn cynnwys risgiau gan gynnwys y risg o golli prifswm posibl. Gall gwerth marchnad ecwiti ostwng o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys amodau economaidd a marchnad anffafriol, rhagolygon stociau yn y portffolio, cyfraddau llog newidiol, ac amodau cystadleuol niweidiol real neu ganfyddedig. Mae'r risgiau hyn yn tueddu i fod yn fwy gyda Chynigion Cyhoeddus Cychwynnol (IPOs), mae buddsoddi dramor yn cynnwys risgiau arbennig gan gynnwys ymhlith eraill, risgiau sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd gwleidyddol neu economaidd, risg arian tramor (fel cyfnewid, prisio ac amrywiad), cyfyngiadau mynediad neu ymadael â'r farchnad, anhlyffedd a threthiant. Mae'r risgiau hyn yn bodoli i raddau mwy mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg nag mewn marchnadoedd datblygedig. Mae buddsoddiadau mewn cwmnïau cyfalafu bach yn gyffredinol yn cario mwy o risg nag sy'n gysylltiedig â chwmnïau cyfalafu mwy, a all gynnwys, er enghraifft, llai o wybodaeth gwyhoeddus, adnoddau ariannol a llinellau cynnyrch mwy cyfyngedig, mwy o anwadalarwydd, risg uwch o fethiant na chwmnïau mwy a llai o hylifedd. Ni all unrhyw strategaeth fuddsoddi neu dechneg rheoli risg warantu enillion yn y dyfodol neu ddileu risg mewn unrhyw amgylchedd marchnad.

Datganiadau sy'n Edrych i'r Dyfodol

Mewn rhai datganiadau a gynhwysir yma, gan gynnwys heb gyfyngiad, mae'r geiriau 'credu', 'rhagweld', 'bwriadu', 'disgwyl', 'efallai', 'cynlluniau', 'prosiectau', 'bydd', 'byddai' a geiriau o bwys tebyg, gyfystyr â 'Datganiadau sy'n Edrych i'r Dyfodol'. Mae Datganiadau o'r fath sy'n Edrych i'r Dyfodol yn cynnwys risgiau hysbys ac anhysbys, ansicrwydd a ffactorau eraill a allai achosi i ganlyniadau, perfformiad neu gyflawniadau gwirioneddol y Gronfa fod yn sylweddol wahanol i unrhyw ganlyniadau, perfformiad neu gyflawniadau yn y dyfodol a fynegir neu a ymhygir gan Ddatganiadau o'r fath sy'n Edrych i'r Dyfodol. Mae unrhyw ddadansoddiad o fuddsoddiadau posibl o reidrwydd yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol nad yw o reidrwydd yn arwydd o ganlyniadau yn y dyfodol. Ni all Schroders Capital a'r Gronfa warantu y byddant mewn gwirionedd yn cyflawni'r cynlluniau, y bwriadau neu'r disgwyliadau a fynegir neu a awgrymir mewn Datganiadau o'r fath sy'n Edrych i'r Dyfodol. Ni ddylai buddsoddwyr ddibynnu ar Ddatganiadau sy'n Edrych i'r Dyfodol fel rhai sy'n cynrychioli barn Schroders Capital neu'r Gronfa ar unrhyw ddyddiad ar ôl y dyddiad a nodir ar y dudalen flaen yma. Er y gallwn ddewis diweddarau datganiadau sy'n edrych i'r dyfodol ar ryw adeg yn y dyfodol, rydym yn gwadu'n benodol unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny, hyd yn oed os yw ein hamcangyfrifon neu ddisgwyliadau yn newid.

Terfynau Rhagolygon, Llif Arian ac Amcangyfrifon Prisio

Mae gwybodaeth benodol a gynhwysir yma yn dangos y prisiad a'r prisiadau disgwyliedig yn y dyfodol yn ogystal â chanlyniadau amcangyfrifedig y Gronfa a ragwelir yn y dyfodol. Nid yw'r amcan ffigyrau ar gyfer tynnu i lawr, dosbarthiadau a phrisiadau yn ragfynegiad nac amcanestyniad, ond maent yn cynrychioli amcangyfrif ewyllys da o'r amseriad a'r symiau prisio posibl.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar, ymhlith pethau eraill, (i) telerau cytundebau sylfaenol y Gronfa, gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â threuliau'r Gronfa, llog a ffioedd rheoli, (ii) lle bo hynny ar gael, rhagamcanion ac amcangyfrifon eraill a ddarperir gan gronfeydd sylfaenol mewn cysylltiad â diwydrwydd dyladwy buddsoddiad Schroders Capital sy'n ymwneud â data enillion disgwyliedig a neu darged (megis lluosrifau enillion ac IRRs), (iii) Dadansoddiad Schroders Capital o gwmnïau portffolio cronfeydd sylfaenol, (iv) rhyngweithio Schroders Capital â rheolwyr cronfeydd sylfaenol, (v) canlyniadau hanesyddol rheolwyr cronfeydd y mae Schroders Capital wedi buddsoddi gyda nhw o'r blaen a (vi) elfennau cymharol a data ystadegol sydd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â ffynonellau eraill yr ystyrir gan Schroders Capital yn ddibynadwy ac mewn ewyllys da. Ni all Schroders Capital warantu, cynrychioli na gwarantu cywirdeb, cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon ac nid yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath. Mae pob derbynnwydd yn cydnabod bod mynediad Schroders Capital at wybodaeth ariannol neu wybodaeth fusnes arall am gwmnïau portffolio cronfeydd sylfaenol wedi'i gyfyngu gan amrywiol ffactorau, gan gynnwys cyflawnrwydd adrodd gan reolwyr cronfeydd sylfaenol a chyfyngiadau cyfrinachedd perthnasol, sy'n ffactor lliniarol sylweddol mewn perthynas â chywirdeb gwybodaeth o'r fath. Mae'r wybodaeth yn mynegi barn Schroders Capital ar y dyddiad a nodwyd, sy'n destun newid. Efallai y bydd gwybodaeth ychwanegol a/neu wybodaeth arall ar gael yn ddiweddarach. Efallai y bydd Schroders Capital yn dewis diweddarau'r wybodaeth ar ryw adeg yn y dyfodol, ond yn benodol yn gwadu unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny, hyd yn oed os bydd amcangyfrifon neu ddisgwyliadau Schroders Capital yn newid. Mae'r ddogfen yn cynnwys ansicrwydd sylweddol am y datblygiadau yn y dyfodol, sy'n gynhenid i amodau presennol y farchnad.

Datgeliad UNPRI

Mae Schroders a Schroders Capital yn aelodau llofnodol rheoli buddsoddiadau'r PRI, yr hawliau aelodaeth y maent yn talu ffi amdanynt. Bydd sgoriau llofnodol ar gyfer pob dangosydd yn cael eu gweld yn erbyn pob llofnodwr arall yr oedd y dangosydd hwnnw'n berthnasol iddynt, waeth beth fo'u math, eu maint neu eu lleoliad. Lefel modiwl: Bydd sgoriau llofnodwyr ar gyfer pob modiwl yn cael eu harddangos mewn chwe Band perfformiad eang (A+ i E) ar lefel absoliwt yn ogystal â chymharu â chymheiriad o fath, maint neu leoliad tebyg. Bydd cyfanswm sgôr modiwl cyfanredol pob llofnodwr yn cael ei gymharu â grwpiau cymheiriad perthnasol mewn cyfres o siartiau dosbarthu. Mae'r ddogfen PRI yn seiliedig ar wybodaeth a adroddir yn uniongyrchol gan lofnodwyr. Ar ben hynny, nid yw'r wybodaeth sylfaenol wedi'i harchwilio gan y PRI nac unrhyw barti arall sy'n gweithredu ar ei ran. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gynhyrchu cynrychiolaeth deg o berfformiad, ni wneir unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cywirdeb y wybodaeth a gyflwynir, ac ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am ddifrod a achosir drwy ddefnyddio neu ddibynnu ar y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. I gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg, ewch i www.unpri.org.

Gwybodaeth Bwysig (2/2)



Datgeliadau Perfformiad

IRR Net - Mae'r cyfraddau enillion mewmol blynyddol net a ddangosir yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar gyfradd enillion gyfansawdd effeithiol sy'n agregu llif arian dyddiol Partner Cyfyngedig a gwerthoedd cyfalaf chwarterol, a gyflwynir fel net o'r holl ffioedd rheoli a pherfformiad a threuliau cronfa eraill. Mae IRRs y gronfa yn cael eu cyfrifo o'r alwad gyfalaf gyntaf yn y gronfa honno hyd at y dyddiad a ddangosir.

IRR Gros - Yn cynrychioli'r cyfraddau enillion mewmol blynyddol a gyfrifwyd gan ddefnyddio llif arian dyddiol o'r cronfeydd a reolir gan Schroders Capital i ac o'r gwahanol bartneriaethau y buddsoddodd cronfeydd Schroders Capital ynddynt yn ystod y cyfnod a bennwyd, ar ôl ffioedd, treuliau, a llog cario buddsoddiadau partneriaeth sylfaenol, ond cyn y ffioedd, treuliau, a llog cario a godwyd ar gronfeydd Schroders Capital.

Cyfanswm Gwerth Net/Talu i mewn (TVPI Net) - Yn cynrychioli dosbarthiadau ynghyd â gwerth cyfalaf, wedi'i rannu â chyfalaf a dalwyd i mewn. Mae Net TVPI yn net o'r holl ffioedd a threuliau.

Cyfanswm Gwerth Gros/Talu i mewn (TVPI Gros) - Yn cynrychioli dosbarthiadau ynghyd â gwerth cyfalaf, wedi'i rannu â chyfalaf a dalwyd i mewn. Mae TVPI gros yn net o ffioedd a threuliau partneriaeth, ond cyn ffioedd a threuliau Schroders Capital.

Fel enghraifft o'r effaith ar berfformiad y ffioedd hyn sy'n cyfuno dros amser, gweler y siart isod. Byddai gwerth cyfrif \$5,000,000 yn cael ei ostwng gan y symiau canlynol oherwydd effaith gyfansawdd y ffioedd rheoli. Mae hyn wedi'i gyfrifo gan dybio enillion cyson tybiedig o 10% y flwyddyn a ffi rheoli damcaniaethol o 0.75% y flwyddyn, sydd wedi'i gymhwyso ar gyfartaledd syml o agor a chau gwerthoedd cronfa blynyddol. Mae'r enillion tybiedig o 10% yn ddamcaniaethol ac ni ddylid eu hystyried yn gynrychiolaeth o enillion yn y gorffennol neu'r dyfodol. Bydd effaith wirioneddol ffioedd ar werth cyfrif dros amser yn amrywio gydag enillion yn y dyfodol, na ellir eu rhagweld a gall fod yn fwy neu'n llai na'r swm a dybiwyd yn y darlun hwn. Gall ffioedd gwirioneddol fod yn wahanol i'r gyfradd dybiedig a gyflwynir uchod. Edrychwch ar Lyfryn Cynghori'r Cwmni (ADV Rhan 2) i gael disgrifiad o'r ffioedd.

	Gwerth gros	Gwerth net	Effaith gyfansawdd
1 Flwyddyn	\$5,500,000	\$5,460,625	\$39,375
3 Blynedd	\$6,655,000	\$6,513,090	141,910
5 mlynedd	\$8,052,550	\$7,768,403	\$284,147
10 mlynedd	\$12,968,712	\$12,069,617	\$899,095

Nodiadau deunydd i fuddsoddwyr sydd wedi'u lleoli yn y Swistir

Mae Schroders Capital Private Equity Asia III L.P., Schroders Capital Private Equity Asia IV L.P., Schroders Capital Private Equity Europe V L.P., Schroders Capital Private Equity Europe VI L.P., Schroders Capital Private Equity Europe Direct L.P., Schroders Capital Private Equity US III L.P., Schroders Capital Private Equity US IV L.P., Schroders Capital Private Equity Secondaries II L.P., Schroders Capital Private Equity Secondaries III L.P., Schroders Capital Private Equity Global L.P., Schroders Capital Private Equity Global Innovation VII L.P., Schroders Capital Private Equity Global Innovation VIII L.P. yn bartneriaethau cyfyngedig sydd wedi'u ffurfio, eu sefydlu a'u cofrestru'n briodol yn yr Alban. Mae Schroders Capital Private Equity Global II S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Innovation IX S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe Direct II S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe VII S.C.S., Schroders Capital Private Equity US V S.C.S., Schroders Capital Private Equity Asia V S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Innovation X S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe VIII S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Direct III EUR S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Direct III USD S.C.S., Schroders Capital Private Equity Healthcare I S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global III EUR S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global III USD S.C.S., Schroders Capital Private Equity Secondaries IV EUR S.C.S., Schroders Capital Private Equity Secondaries IV USD S.C.S., Schroders Capital Private Equity China III S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe Direct III S.C.S., Schroders Capital Private Equity Asia VI S.C.S., Schroders Capital Private Equity China IV S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe Direct III S.C.S. yn bartneriaethau cyfyngedig cyffredin (sociétés en commandite simple) sydd wedi'u ffurfio, eu sefydlu a'u cofrestru'n briodol yn Lwcsembwrg (ynghyd â chronfeydd yr Alban, y 'Cronfeydd'). Mae pob cronfa yn cydymffurfio â chyfraith y Swistir i'w dosbarthu i fuddsoddwyr cymwys yn y Swistir neu o'r Swistir. Cynrychiolydd y Swistir yw Carnegie Fund Services SA, 11, rue du Général-Dufour, 1204 Genefa. Asiant talu'r Swistir yw Banque Cantonale de Genève, 17, quai de l'Île, 1204 Genefa. Gall buddsoddwyr cymwys a ddewiswyd yn unig yn y Swistir fel y'i diffinnir gan Femorandwm pob Cronfa gael dogfennau'r Gronfa o'r fath yn rhad ac am ddim gan gynrychiolydd y Swistir, megis y Memorandwm, ei ychwanegiadau, y Cytundeb Partneriaeth Cyfyngedig a'r datganiadau ariannol. Dim ond i fuddsoddwyr cymwys dethol yn y Swistir y gellir cyhoeddi, cylchredeg neu ddosbarthu'r ddogfen hon fel y'i diffinnir gan y Memorandwm. Ni ddylai derbynwyr y ddogfen ei throsglwyddo i unrhyw un.

Nodiadau materol i fuddsoddwyr sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig

Cyhoeddwyd yn y DU gan Schroder Investment Management Limited, 1 London Wall Place, Llundain EC2Y 5AU. Rhif Cofrestru 1893220 Lloegr. Wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Nodiadau materol i fuddsoddwyr sydd wedi'u lleoli yn yr Undeb Ewropeaidd

Schroder Investment Management (Europe) S.A. yw AIFM Schroders Capital Private Equity Europe VII S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Innovation IX S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe Direct II S.C.S., Schroders Capital Private Equity US V S.C.S., Schroders Capital Private Equity Asia V S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Innovation X S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe VIII S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Direct III EUR S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Direct III USD S.C.S., Schroders Capital Private Equity Healthcare I S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global III EUR S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global III USD S.C.S., Schroders Capital Private Equity Secondaries IV EUR S.C.S., Schroders Capital Private Equity Secondaries IV USD S.C.S., Schroders Capital Private Equity China III S.C.S., Schroders Capital Private Equity Europe Direct III S.C.S., Schroders Capital Private Equity Asia VI S.C.S., Schroders Capital Private Equity China IV S.C.S., Schroders Capital Private Equity Global Innovation XI S.C.S. Mae wedi dirprwyo rheoli buddsoddiad i Schroders Capital Management (y Swistir) AG ond mae'n parhau i fod yn gyfrifol (ymhlith eraill) am reoli risg. Yn ogystal â hyn, Schroders Capital Management (Swistir) AG yw dosbarthwr byd-eang penodedig y cronfeydd hyn.

Nodiadau deunydd i fuddsoddwyr sydd wedi'u lleoli yn Unol Daleithiau America a Chanada

Mae'r deunydd hwn wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio gyda buddsoddwyr cymwys a/neu soffistigedig sy'n deall yr anhylifydd, y farchnad, a'r risgiau digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ecwiti preifat yn gyffredinol. Nid yw'r deunydd hwn yn addas ar gyfer cynulleidfia fanwerthu ac ni ddylid ei ailddosbarthu o dan unrhyw amgylchiadau. Bwriad y ddogfen hon yw bod at ddibenion gwybodaeth yn unig ac nid yw wedi'i fwriadu fel deunydd hyrwyddo mewn unrhyw ffordd. Mae Schroders Capital Management (US) Inc. ('Schroders Capital US') wedi'i gofrestru fel ymgynghorydd buddsoddi gyda Chomisiwn Gwarantau a Chyfnwied yr USA. Mae'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau rheoli asedau i gleientiaid yn yr Unol Daleithiau. Mae Schroder Fund Advisors LLC ('SFA') yn marchnata cerbydau buddsoddi penodol y mae Schroders Capital US yn ymgynghorydd buddsoddi ar eu cyfer. Mae SFA yn gysylltiedig â Schroders Capital US ac mae wedi'i gofrestru fel brocer-deliwr â diben gyfyngedig gydag Awdurdod Rheoleiddio'r Diwydiant Ariannol ac fel Deliw'r Marchnad Eithriedig gyda'r awdurdodau rheoleiddio gwarantau yn Alberta, British Columbia, Manitoba, New Brunswick, Newfoundland, Nova Scotia, Ontario, Quebec, Saskatchewan, Newfoundland a Labrador. Nid yw'r ddogfen hon yn honni darparu cyngor buddsoddi ac mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd hwn at ddibenion gwybodaeth ac nid i gymryd rhan mewn gweithgaredd masnachu. Nid yw'n honni disgrifio busnes na materion unrhyw gyhoeddwr ac nid yw'n cael ei ddarparu i'w ddosbarthu na'i adolygu gan unrhyw ddarpar brynwr er mwyn cynorthwyo'r darpar brynwr i wneud penderfyniad buddsoddi mewn perthynas â gwarantau sy'n cael eu gwerthu mewn dosbarthiad. Mae Schroders Capital US a SFA yn is-gwmnïau unioniogrychol, sy'n eiddo llwyr i Schroders plc, cwmni cyhoeddus yn y DU gyda chyfranddaliadau wedi'u rhestru ar Gyfnwida Stoc Llundain.

Ymwadiad trydydd parti



Mynegai MSCI

Ffynhonnell: MSCI. Dim ond ar gyfer eich defnydd mewnol y dylai'r wybodaeth MSCI gael ei defnyddio, ni ddylid ei hatgynhyrchu na'i hailddosbarthu mewn unrhyw fodd ac ni ddylid ei defnyddio fel sail, neu elfen o, unrhyw declyn neu gynnyrch neu fynegai ariannol. Nid yw unrhyw wybodaeth MSCI wedi'i fwriadu i fod yn gyngor buddsoddi nac argymhelliad i wneud (neu ymatal rhag gwneud) unrhyw fath o benderfyniad buddsoddi ac ni ellir dibynnu arno fel y cyfryw. Ni ddylid cymryd data a dadansoddiad hanesyddol fel arwydd na gwarant o unrhyw ddadansoddiad, rhagolwg neu ragfynegiad perfformiad yn y dyfodol. Darperir y wybodaeth MSCI ar sail 'fel y mae' ac mae defnyddiwr y wybodaeth hon yn cymryd y risg gyfan o unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth hon. Mae MSCI, pob un o'i gysylltiedigion a phob person arall sy'n ymwneud â chasglu, cyfrifiadura neu greu unrhyw wybodaeth MSCI neu sy'n gysylltiedig â nhw (gyda'i gilydd, y 'Partion MSCI') yn gwadu pob gwarant yn benodol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw warantau gwreiddioldeb, cywirdeb, cyflawnrwydd, prydlondeb, dim troseddu, masnachiaeth ac addasrwydd at ddiben penodol) mewn perthynas â'r wybodaeth hon. Heb gyfyngu ar unrhyw un o'r blaenorol, ni fydd gan unrhyw Barti MSCI unrhyw atebolrwydd am unrhyw ddifrod uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig, damweiniol, cosbol, canlyniadol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, elw coll) neu unrhyw iawndal arall. (www.msci.com)

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	15 MEDI 2025
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25
PWRPAS:	Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 arhosodd gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £2.5m o log ar fuddsoddiadau sydd yn is na'r £2.7m a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw sefydliad yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda hwy fethu â thalu.

1. Cyflwyniad

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2024/25 gan y Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth 2024.

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau 19 Mawrth 2024 i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd- fuddsoddi a llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith referniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o God CIPFA ac Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

2. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel y rheiny sy'n deillio o lif arian y Cyngor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn nhrefn arferol busnes.

Mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £106.8 miliwn a

£235.8 miliwn.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.24 Balans £m	2024/25 Symudiad £m	31.3.25 Balans £m	31.3.25 Cyfradd %	31.3.25 WAM* (diwrnodau)
Banciau & Chymdeithasau Adeiladu (heb eu diogelu)	5.9	0.1	6.0	4.5	29.3
Awdurdodau Lleol	81.0	(56.0)	25.0	5.8	48.8
Cronfeydd Marchnad Arian	43.0	22.0	65.0	4.5	1.0
Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)	0.0	45.0	45.0	4.5	3.2
Cronfeydd wedi'u pwlio	11.6	0.3	11.9	6.0	365+
Cyfanswm buddsoddiadau	141.5	11.4	152.9		

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Mae Cod Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Gostyngodd cyfradd y banc o 5.25% i 5.00% ym mis Awst 2024, eto i 4.75% ym mis Tachwedd 2024 ac eto i 4.5% ym mis Chwefror 2025 gyda chyfraddau llog tymor byr o gwmpas y lefelau hyn i raddau helaeth. Roedd y cyfraddau ar adneuo DMADF yn amrywio rhwng 4.45% a 5.20% a chyfraddau y farchnad arian rhwng 4.45% a 5.29%.

Mae £11.9m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti, bondiau ac eiddo cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn lle hynny yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd hirdymor prisiau. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 5.95% a ddefnyddir i gefnogi gwasanaethau yn y flwyddyn ac enillion cyfalaf heb ei wireddu o £0.3m yn y flwyddyn ariannol yma. Oherwydd nad oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond eu bod ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, adolygir eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcanion buddsoddi tymor canolig i hir y Cyngor yn rheolaidd. Gwneir buddsoddiadau cronfeydd strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr mewn misoedd, chwarteri a hyd yn oed blynnyddoedd ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn fwy na llog arian parod.

Meincnodi Buddsoddiadau

	Sgôr Credyd	Graddfa Credyd	Datguddiad 'Bail-in'	WAM* (diwrnodau)	Cyfradd Dychwelyd
31.03.2024	5.30	A+	38%	36	5.59%
31.03.2025	4.67	A+	50%	22	4.82%
A.LI Tebyg	3.92	AA-	30%	105	4.53%
Pob A.LI	4.77	A+	64%	8	4.65%

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

3. Adroddiad Cydymffurfio

Mae'r swyddog adran 151 yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tablau isod:

Cyfyngiadau Dyled

	2024/25 Uchafswm	31.3.25 Gwir	2024/25 Ffin Weithredol	2024/25 Terfyn Awdurdodedig	Cydymffurfiwyd
Benthyciadau	£100.9m	£94.1m	£190m	£200m	✓

Gan fod y ffin weithredol yn declyn rheolaeth ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn nid yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau yn y llif arian, ac nid yw hyn yn cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfiad.

Cyfyngiadau Buddsoddi

	2024/25 Uchafswm	31.3.25 Gwir	2024/25 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Llywodraeth y DU	£71.7m	£45m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£10m	✓
Buddsoddiadau a sicrwydd	£0m	£0m	£10m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£5m	£5m	✓
Cymdeithasau adeiladau (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£10m	£10m	£10m	✓
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£10m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0m	£0m	£10m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£5m	✓

4. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio'r mesuryddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i fesur ei amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwyso gan amser ar ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwyso yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb eu graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	31.3.25 Gwir	2024/25 Targed	Cydymffurfiwyd
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	4.67	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael ar gyfer cwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol.

	31.3.25 Gwir	2024/25 Targed	Cydymffurfiwyd
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£141.0m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad 1% mewn cyfraddau llog fel a ganlyn:

	31.3.25 Gwir	2024/25 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd 1% mewn cyfraddau llog	£1,301,900	£2,290,000	✓
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gwymp 1% mewn cyfraddau llog	£1,301,900	£2,290,000	✓

Prifsymiau a fuddsoddwyd am gyfnod hwy na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled a allai ddigwydd os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

	2024/25	2025/26	2026/27
Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn	£13m	£0	£0
Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m
Cydymffurfiwyd	✓	✓	✓

5. Argymhelliad

I dderbyn yr adroddiad.

Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	15/09/2025
Teitl:	Adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau ar gyfer adroddiad blynyddol y Gronfa
Pwrpas:	Cynorthwyo'r Cadeirydd i ysgrifennu'r adroddiad blynyddol

1. Cyflwyniad

Yn adroddiad blynyddol 2024/25 y Gronfa Bensiwn, mae'n ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau gyflwyno adroddiad blynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn ac fel rhan o gyfarfod blynyddol y Gronfa.

Mae'r adroddiad drafft hwn (Gweler **Atodiad A**) wedi ei baratoi yn fras fel pwynt cychwyn.

2. Amserlen

Mae'n ofynnol bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn: **30/09/2025**.

Bydd cyfarfod blynyddol y gronfa yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref (24/11/2025 am 1 o'r gloch) ac mae croeso i holl aelodau'r Pwyllgor fynychu.

3. Cynnwys yr adroddiad drafft

Mae'r adroddiad drafft ar gyfer y Pwyllgor Pensiwn, a baratowyd i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, wedi'i lunio gan ddefnyddio'r fformat a'r strwythur cynnwys y mae'r Bwrdd Pensiwn wedi'i ddefnyddio'n gyson dros nifer o flynyddoedd. Mae'r dull hwn yn sicrhau parhad ac aliniad ar draws adroddiadau llywodraethu. Mae'r adroddiad drafft yn cynnwys adrannau allweddol gan gynnwys Cefndir a Chyfansoddiad y Pwyllgor, ei swyddogaethau craidd, aelodaeth bresennol, crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod adrodd, y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2025/26, a manylion y gweithgareddau hyfforddi a gwblhawyd gan aelodau'r pwyllgor.

4. Casgliad

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor i ystyried cynnwys yr adroddiad drafft er mwyn trafod ei gynnwys a chynnig gwelliannau yn y cyfarfod.

Fel nodwyd uchod, mae'n ofynnol i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad terfynol i Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi erbyn **30/09/2025**.

Atodiad A

Cronfa Bensiwn Gwynedd Adroddiad y Pwyllgor Pensiynau ar gyfer 2024/25

1. Cefndir a Chyfansoddiad y Pwyllgor

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cenedlaethol (LGPS), sy'n darparu buddion ymddeol a buddion cysylltiedig i weithwyr Cyngor Gwynedd ac amrywiaeth o gyflogwyr eraill yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Mae llywodraethu'r Gronfa yn cael ei oruchwyllo gan y **Pwyllgor Pensiynau**, sy'n gweithredu o dan bwerau a ddirprwywyd gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod gweinyddol. Mae'r Pwyllgor wedi'i gyfansoddi yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n cydymffurfio â rheoliadau llywodraethu LGPS a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a Bwrdd Cyngori'r Cynllun (SAB).

Mae'r Pwyllgor yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu buddiannau aelodau a chyflogwyr y Gronfa trwy sicrhau rheolaeth ariannol gadarn, llywodraethu cryf, a chydymffurfiaeth â'r holl gyfrifoldebau deddfwriaethol.

2. Swyddogaethau'r Pwyllgor Pensiynau

Mae cyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys:

- **Strategaeth a Goruchwyliaeth**
 - Cymeradwyo ac adolygu'n rheolaidd Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS) a Datganiad Strategaeth Ariannu (FSS) y Gronfa.
 - Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ac iechyd ariannol y Gronfa.
- **Llywodraethu a Rheoli Risg**
 - Goruchwyllo llywodraethu'r Gronfa yn unol â gofynion rheoleiddiol ac arfer gorau.
 - Cynnal goruchwyliaeth o gofrestr risg y Gronfa a Rheolaethau mewnol.
- **Rheoli Buddsoddiadau**
 - Monitro perfformiad buddsoddi ac ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi'r Gronfa.
 - Gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â dyrannu asedau a'r defnydd o gerbydau buddsoddi ar y cyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).
- **Gweinyddu a Chydymffurfiaeth**
 - Goruchwyllo gweinyddu budd-daliadau a gwasanaethau aelodau.
 - Sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau TPR a rheoliadau LGPS.

Mae'r Pwyllgor yn gweithio ochr yn ochr â'r **Bwrdd Pensiwn Lleol**, sydd â rôl oruchwyllo a chraffu, gan sicrhau bod y Gronfa yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn unol â deddfwriaeth.

3. Gwaith y Pwyllgor yn 2024/25

Yn ystod 2024/25, cyfarfu'r Pwyllgor Pensiynau bum gwaith. Cafodd ei waith ei lunio gan faterion llywodraethu arferol a gofynion rheoleiddio sy'n esblygu. Roedd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:

- **Goruchwyllo Buddsoddi**
 - Adolygu adroddiadau perfformiad buddsoddi chwarterol a derbyn cyflwyniadau gan reolwyr cronfeydd allweddol.

- Addasiadau cymeradwyo i ddyraniadau asedau yn unol ag amodau'r farchnad a chredoau buddsoddi.
 - Parhau i drosglwyddo asedau i gronfeydd cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys portffolios ecwiti ac incwm sefydlog sy'n cyd-fynd ag ESG.
- **Cyllid a Phrisio**
 - Cymryd rhan mewn gwaith paratoi ar gyfer prisiad actiwaraid 2025, gan gynnwys monitro lefel cyllid interim ac asesiadau cyfamod cyflogwyr.
 - Diweddariadau cymeradwyo i'r Datganiad Strategaeth Ariannu sy'n adlewyrchu newidiadau mewn cyfranogiad cyflogwyr.
- **Llywodraethu a Rheoli Risg**
 - Adolygu Cofrestr Risg y Gronfa yn rheolaidd, gan gynnwys sylw penodol i weithredu ateb McCloud, risg seiber, a risg ansolfedd cyflogwyr.
 - Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ag arferion gorau llywodraethu a disgwyliadau TPR.
- **Buddsoddi Cyfrifol**
 - Derbyn diweddariadau ar amlygiad risg hinsawdd, metrigau dwysedd carbon, ac aliniad TCFD.
 - Cymeradwyo cydweithrediad parhaus gyda WPP i integreiddio ystyriaethau ESG ym mhob dosbarth asedau.
- **McCloud a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol**
 - Goruchwyliodd baratodau cydymffurfio'r Gronfa ar gyfer gweithredu ateb McCloud, gan gynnwys prosesu data a chyfathrebu gyda aelodau.
 - Monitro cynnydd tuag at barodrwydd Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau'r Gronfa.

4. Aelodaeth y Pwyllgor (2024/25)

Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys 7 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd ynghyd ag un aelod cyfetholedig yr un (gyda phleidlais) o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn 2024/25 fel a ganlyn:

Enw Aelod	Cynrychioli	Rôl
Y Cynghorydd Medwyn Hughes	Cyngor Gwynedd	Cadeirydd
Y Cynghorydd Elin Hywel	Cyngor Gwynedd	Is-gadeirydd
Y Cynghorydd Stephen Churchman	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cynghorydd Iwan Huws	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cynghorydd Ioan Thomas	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cynghorydd John Pughe Roberts	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cynghorydd Robin Williams	Cyngor Sir Ynys Môn	Aelod Cyfetholedig
Y Cynghorydd Goronwy Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Aelod Cyfetholedig

5. Presenoldeb

	17/06/2024	16/09/2024	25/11/2024	27/01/2025	17/03/2025
Y Cyngorydd Medwyn Hughes	✓	✓	✓	✓	
Y Cyngorydd Elin Hywel	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd Stephen Churchman	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd Iwan Huws	✓		✓	✓	✓
Y Cyngorydd Ioan Thomas	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd John Pughe Roberts	✓	✓		✓	
Y Cyngorydd John Brynmor Hughes	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd Robin Williams	✓	✓	✓	✓	
Y Cyngorydd Goronwy Edwards	✓		✓	✓	✓

6. Cynllun Gwaith a Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu cynllun gwaith blaengar ar gyfer 2025/26, gan ganolbwyntio ar:

- Cwblhau **Prisiad Actiwaraidd Tair Blynedd 2025**
- Trawsnewidiad pellach a monitro buddsoddiadau cyfunol gyda WPP
- Goruchwyllo gweithredu **ateb McCloud**
- Parhau i ddatblygu **adrodd risg hinsawdd** a chydymffurfio â TCFD
- Paratoi ar gyfer cydymffurfio â'r **Dangosfwrdd Pensiynau**
- Adolygiad parhaus o **fframwaith a pholisïau llywodraethu'r Gronfa**

Bydd adroddiadau rheolaidd gan actiwariaid, ymgynghorwyr buddsoddi a swyddogion y Gronfa yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol trwy gydol y flwyddyn.

7. Hyfforddiant a Datblygu

Yn unol â Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA, cynhaliodd y Pwyllgor raglen hyfforddi strwythuredig i sicrhau bod gan aelodau y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Roedd gweithgareddau hyfforddi allweddol yn 2024/25 yn cynnwys:

- Hyfforddiant ESG a Buddsoddi Cyfrifol
- Egwyddorion cyllido actiwaraidd ac asesu cyfamod cyflogwr
- Dyfarniad McCloud a diweddariadau diwygio deddfwriaethol
- Gweithdai perfformiad buddsoddi a rheoli risg
- Sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau newydd a sesiynau gloywi i aelodau presennol

Disgwylir i bob aelod ymgymryd â lefel isafswm o hyfforddiant blyneddol a chynnal log datblygiad personol. Mae'r cynllun hyfforddi yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i deilwra i anghenion unigol a chyfunol.

7. Casgliad

Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn fodlon ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu yn ystod 2024/25. Mae'r Pwyllgor wedi darparu goruchwyliaeth gadarn o fuddsoddiadau, sefyllfa ariannu a gwasanaethau gweinyddol y Gronfa wrth ymateb yn effeithiol i'r heriau a'r newidiadau yn yr amgylchedd LGPS.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithredu er budd yr holl randdeiliaid a sicrhau bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i ddarparu diogelwch a gwerth hirdymor i'w haelodau a'i chyflogwyr.

Y Cyngorydd Medwyn Hughes
Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau 2024/25

Pwyllgor:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	15/09/2025
Teitl:	Cofrestr Risg
Pwrpas:	Cyflwyno fersiwn ddiweddaraf Cofrestr Risg y Gronfa Bensiwn i'r Pwyllgor Pensiynau
Awdur:	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cefndir

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnal Cofrestr Risg er mwyn nodi, mesur a rheoli'r risgiau sy'n gallu effeithio ar reolaeth, perfformiad, ac atebolrwydd y Gronfa. Mae'r ddogfen yn arf rheoli allweddol ac yn rhan annatod o'r fframwaith llywodraethu risg y Gronfa.

2. Diweddariadau ar gyfer 2025

Mae'r fersiwn 2025 wedi'i diwygio i gynnwys:

- Gofynion Cod Cyffredinol newydd yr Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) (Risg 1.4)
- Cyflwyniad y Dashfwrdd Pensiynau a goblygiadau'r newid hwnnw (Risg 6.12)
- Prosiect yr Wyddfa - Y newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol / 'Fit for Purpose' (risgiau 9.1 – 9.3)

Mae copi o'r Gofrestr gyfredol ynghlwm fel **Atodiad A**.

Mae'n ddogfen weithredol a bydd adolygiad rheolaidd a diweddariad ar gyfer unrhyw risgiau sylweddol sydd yn datblygu.

Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd Pensiwn yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2025, mae dau ddiweddariad allweddol wedi'u gwneud i'r Gofrestr Risg:

- Ychwanegwyd risg newydd mewn perthynas â chyflwyno system gyflogres newydd sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer 2026 (Risg 6.13).
- Cafodd lefel y risg ar gyfer ymosodiadau seiber ei chynyddu yn sgil digwyddiadau diweddar sydd wedi effeithio ar sefydliadau mawr, gan gynnwys Marks & Spencer a'r Co-op (Risg 6.7).

3. Edrych i'r Dyfodol

Mae'n debygol y bydd angen diweddariadau pellach i'r Gofrestr Risg yn dilyn y prisiad diweddaraf ac wrth weithredu'r newidiadau deddfwriaethol a ddaw yn sgil y rheoliadau Addas i'r Dyfodol / 'Fit for Purpose'.

4. Rôl y Pwyllgor

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor craffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.

CRONFA BENSIWN GWYNEDD

COFRESTR RISG: Gorffennaf 2025

Matrics Asesu Risg					
Tebygolrwydd	5	10	15	20	25
	4	8	12	16	20
	3	6	9	12	15
	2	4	6	8	10
	1	2	3	4	5
	Effaith				

Asesu'r Effaith				
		Ariannol	Enw da	Rhanddeiliaid / Cwsmeriaid
1	Bach iawn	< £35k	Colled fach iawn a byrhoedlog o ymddiried y cyhoedd.	Effaith leiaf bosib i randaliadau a chwsmeriaid.
2	Bach	£35k - £300k	Colli ychydig o ymddiried gyda ddim effaith barhaol. Ychydig o gyhoeddusrwydd gwael.	Effaith bychan i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cyfyngedig ar wasanaeth.
3	Cymedrol	£300k - £3m	Colled gymedrol mewn ymddiried sy'n derbyn cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol yn lleol heb unrhyw effaith barhaol.	Dim effaith barhaol. Tarfu cymedrol i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cymedrol ar wasanaeth.
4	Mawr	£3m - £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau lleol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad sylweddol i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Bygythiad o gamau cyfreithiol.
5	Trychinebus	> £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad mawr i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad sylweddol gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Camau cyfreithiol. Cof hirdymor cyhoeddus.

Asesu Tebygolrwydd			
		Disgrifiad o'r tebygolrwydd	Tebygolrwydd rhifol
1	Prin	Yn ôl pob tebygolrwydd ni fydd hyn digwydd / ailddigwydd.	O dan 1%
2	Annhebygol	Dim yn disgwyl iddo ddigwydd / ddigwydd eto, ond mae'n bosib iddo ddigwydd.	1% - o dan 5%
3	Posibl	Allai ddigwydd neu ddigwydd eto o bryd i'w gilydd.	5% - o dan 20%
4	Tebygol	Mae'n debyg y bydd yn digwydd / ddigwydd eto, ond nid yw'n fater neu amgylchiadau parhaus.	20% - o dan 50%
5	Tebygol iawn	Bydd yn digwydd / digwydd eto heb amheuaeth, o bosib yn aml. Mae'n brosiect sy'n fwy tebygol o fethu na llwyddo.	Dros 50%

Rhif risg	Disgrifiad o'r Risg ac Effaith Bosibl	Risg Cynhenid			Rheolaethau Lliniaru	Risg Cyfredol			Perchennog Risg	Cynlluniau Ychwanegol	Amser len
		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol			
1. Llywodraethu											
1.1	Nid oes gan yr Awdurdod Gweinyddu trefniadau llywodraethu priodol mewn grym gan gynnwys y gofyniad ar gyfer Bwrdd Pensiwn, a gall hyn arwain at: - Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. - Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. - Risg i enw da.	4	3	12	Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd (CBG) Ddatganiad Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfriad Llywodraethu fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau CPLIL 2008. Mae'r ddau ddatganiad yn cael eu hadolygu a'u diweddarau pan fo angen. Ymgynghorir gyda chyflogwyr y Cynllun pan fydd newidiadau yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau bod y polisi yn dal yn briodol. Mae'r Datganiad hwn ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd: www.cronfabensiwnwynedd.cymru Mae Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd yn cyflawni'r dyletswyddau'r ymddiriedolwr/ Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.	3	1	3	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi Rheolwr Pensiynau		

					Mae Bwrdd Pensiwn Gwynedd wedi ei sefydlu yn unol a Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ac yn cyflawni'r rôl craffu yn effeithiol. Mae cymorth a hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r Pwyllgor ac aelodaeth'r Bwrdd y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu rôl. Mae trefniadau rheolaethol addas yn golygu nad oes trosiant rhu uchel yn aelodaeth y Pwyllgor na'r Bwrdd.						
1.2	Methiant i weithredu gydag integriti a bod yn atebol i randdeiliad oherwydd gwrthdaro buddion ayyb.	2	2	4	Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau cyfreithiol. Mae holl aelodau'r Pwyllgor a Bwrdd yn datgan unrhyw wrthdaro a gwrthdaro posibl i'r Gwasanaeth Democratiaeth.	1	2	2	Pwyllgor Pensiynau Bwrdd Pensiwn Pennaeth Cyllid		
1.3	Nid yw'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol sydd yn arwain at: • Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. • Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. • Risg i enw da.	4	3	12	Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Wybodaeth a Sgiliau. Mae rhaglen anwytho ar gael ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Mae aelodau newydd y Pwyllgor a'r Bwrdd yn cwblhau Cwrs Hanfodion CPLIL. Mae gan y Gronfa bolisi Sgiliau a Gwybodaeth, ac mae cynllun hyfforddiant blynyddol yn cael ei fabwysiadu gyda hyfforddiant perthnasol yn cael ei cynnig i aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd yn barhaus. Mae'r Gronfa yn tanysgrifio i gyrff perthnasol (e.e LAPFF) ac yn anfon cynrychiolwyr i gynadleddau perthnasol.	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi Rheolwr Pensiynau		

					Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael gwybod am ac yn cadw at y Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfio, ac yn cael eu hannog i nodi eu gofynion hyfforddi.						
1.4	Methiant i gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ac i ddangos cydymffurfiaeth â Chod Cyffredinol Rheoleiddiwr y Pensiynau, gan arwain at dorri rheoliadau posibl, niwed i enw da, neu wneud penderfyniadau gwael.	3	4	12	Mabwysiadu fframwaith llywodraethu strwythuredig sydd yn unol â Chod Cyffredinol Rheoleiddiwr y Pensiynau, gan gynnwys modiwlau craidd megis arweinyddiaeth y corff llywodraethu, rheoli risg, cadw cofnodion, a chyfathrebu â'r aelodau. Darparu hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau cyfreithiol ac arferion da. Adolygiad llywodraethu blynyddol ac hunanasesiad yn erbyn gofynion y Cod Cyffredinol. Cynnal polisiau a gweithdrefnau cadarn, gan gynnwys rheoli gwrthdaro buddiannau a rheolaethau mewnol. Mecanweithiau adrodd ffurfiol i sicrhau bod pryderon llywodraethu'n cael eu huwchgyfeirio'n brydlon.	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi Rheolwr Pensiynau	Cwblhau dadansoddiad bylchau yn erbyn y Cod Cyffredinol. Datblygu a chyflwyno cynllun gwella llywodraethu. Diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar gynnydd a statws cydymffurfiaeth.	2025
2. Cyllid a Buddsoddiadau											
2.1	Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion Buddsoddi yn gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol o farchnadoedd a buddsoddi a chynghor actiwariaid annigonol sy'n arwain at:	5	3	15	Mae Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa wedi ei osod yn unol â rheoliadau buddsoddi Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Strategaeth Ariannu yn cymryd ymrwymadau'r Gronfa i ystyriaeth. Mae'r Strategaethau yn cael ei cymeradwyo a'i adolygu gan y Pwyllgor Pensiynau.	3	1	3	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi		

	• Perfformiad gwael y Gronfa. • Colled ariannol. • Cyfraniadau cyflogwr uwch.				Mae'r Gronfa yn defnyddio ymgynghorydd buddsoddi allanol sy'n rhoi arweiniad arbenigol i'r Panel Buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiynau ynghylch y penderfyniadau buddsoddi. Mae Aelodau a Swyddogion yn cael eu hannog i herio'r arweiniad a dderbynir. Mae Aelodau a Swyddogion yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac amserol.						
2.2	Asedau'r Gronfa yn annigonol i gwrdd ag ymrwymadau tymor hir. Strategaeth fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn yn methu cyflawni y dychweliadau gofynnol.	5	3	15	Mae'r prisiant bob tair blynedd yn darparu arwyddion cyfnodol o'r twf mewn asedau yn erbyn ymrwymadau. Mae cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn cael eu gosod yn ddarbodus mewn ymateb i'r angen. Dangosodd prisiant 2022 bod darpariaeth ariannu o 120% yng Nghronfa Gwynedd. Er hynny, mae'r Gronfa yn parhau i ddefnyddio rhagdybiaethau darbodus ar gyfer y prisiad. Mae asedau'r Gronfa wedi eu buddsoddi ar draws ystod eang o wahanol fathau o asedau a chwmnïau rheoli buddsoddiadau er mwyn lleihau effaith colledion posib mewn marchnadoedd a rheolwyr asedau unigol. Yn sgil Prisiad 2022, mae'r Pwyllgor wedi ail-ddyrannu asedau i fathau o asedau risg is. Mae meincnodau penodol addas yn cael eu gosod.	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		

					Mae asedau'r Gronfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli perfformiad y Gronfa. Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn cael eu gwirio yn drylwyr cyn eu penodi ac adolygir perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y meincnod ac amcanion perfformiad y Panel Buddsoddi. Mae'r Gronfa/ PPC yn newid rheolwyr buddsoddi sy'n tanberfformio.						
2.3	Cwmp rheolwr cronfa neu esgeulustod, twyll neu ddiffyg bwriadol a gyflawnwyd gan reolwr cronfa gan arwain at golled ariannol.	4	3	12	Cyflawnir diwydrwydd dyladwy pryd bynnag y penodir rheolwr neu cronfa newydd, ac mae'r sefyllfa yn cael ei adolygu yn gyson drwy monitro chwarterol gan PPC, Panel Buddsoddi a ymgynghorwyr. Mae gofynion cyfreithiol ar gyfer rheolwyr y gronfa yn cael eu nodi yn eu cytundebau rheoli, a disgwylir iddynt cydymffurfio'n llawn â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a gofynion rheoleiddio eraill. Mae'r Gronfa yn defnyddio gwasanaeth ceidwad byd-eang i sicrhau bod buddsoddi asedau yn cael eu gwahanu o'r ddalfa o asedau.	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi		
2.4	Risg y Farchnad - Cwmp yn y farchnad yn arwain at fethiant i leihau'r diffyg, sy'n golygu: - Colled ariannol. - Cynnydd mewn costau cyfraniad y cyflogwr.	5	4	15	Mae asedau'r Gronfa yn cael ei fuddsoddi ar draws ystod eang o ddosbarthiadau ased i liniaru effaith perfformiad gwael mewn segment marchnad unigol. Mae trefniadau perfformiad buddsoddi a monitro yn bodoli sy'n darparu swyddogion buddsoddi gyda'r hyblygrwydd i ail-gydbwysu'r portffolio mewn modd amserol	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		

					petai'r angen yn codi. Mae natur hir dymor yr ymrwymïadau'n lliniaru'r risg yn sylweddol.						
2.5	Risg hylifedd - dim digon o arian i gwrdd â ymrwymïadau wrth iddynt ddod yn ddyledus	4	3	12	Mae'r rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian i ddeall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae adroddiad Modelu Llif Arian 2023 wedi adnabod y bydd y Gronfa gyda llif arian positif tan o leiaf 2029.	3	1	3	Rheolwr Buddsoddi		
2.6	Risg cyfradd llog - Yn deillio o'r risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad	4	3	12	Mae risg cyfradd llog y Gronfa yn cael ei fonitro fel mater o drefn yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r amlygiad i gyfraddau llog ac asesu cyfraddau llog gwirioneddol yn erbyn y meincnodau perthnasol.	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		
2.7	Risg arian cyfred - bydd gwerth teg llif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor.	4	3	12	Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol (o fewn rhanbarthau byd-eang).	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		
2.8	Mae'r Gronfa yn methu ystyried newid hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) eraill:	5	3	15	Mae gan y Gronfa bolisi Buddsoddi Cyfrifol yn weithredol a targed sero net o 2050 wedi ei osod. Polisi Buddsoddi Cyfrifol 2022 (gwyneddpensionfund.wales) Fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru mae nifer o gamau gweithredol yn digwydd yn cynnwys: grŵp gweithredol buddsoddi cyfrifol, darparwr ymgysylltu a pleidleisio, PPC yn lofnodwr Cod Stiwardiaeth DU. Bydd y Panel Buddsoddi hefyd yn ymgysylltu a herio rheolwyr yn gyson ar sut maent yn	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi	Diweddarau targed sero net a polisi buddsoddi cyfrifol ar ôl canlyniadau'r prisiad	2025/26

					ystyried y risg o newid yn yr hinsawdd a ffactorau ESG. Mae gan y Gronfa nod i fuddsoddi mewn buddsoddiadau sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol ac yn y byd ehangach.						
2.9	Tâl a phrisiau chwyddiant yn sylweddol fwy na'r disgwyl sy'n arwain at gynnydd mewn ymrwymadau sy'n fwy na'r amcangyfrif yn y prisiad.	3	3	9	Mae ffocws y broses prisiant actiwariaid ar enillion gwirioneddol asedau, net o brisiau a thâl yn cynyddu. Mae ehangder buddsoddiadau'r Gronfa yn helpu i liniaru'r risg hwn.	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi		
2.10	Cynnydd yn nifer o ymddeoliadau cynnar oherwydd toriadau gwasanaeth cyhoeddus a / neu iechyd gwael sy'n arwain at ymrwymadau pensiwn yn cynyddu.	3	4	12	Mae'r Gronfa wedi dygymod gydag effaith nifer o flynyddoedd o lymder ac mae trefniadau mewn lle i ddelio gyda'r toriadau costau byw. Mae cyflogwyr yn talu cost cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymddeoliadau cynnar sydd ddim yn ymwneud ac ymddeoliadau salwch yn dilyn pob penderfyniad unigol. Mae ymddeoliadau salwch y Cyflogwyr yn cael ei fonitro, ac mae'n ofynnol i gyflogwyr bach i gymryd yr yswiriant ymddeoliad salwch a ddarperir gan y Gronfa.	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi		
2.11	Mae'r disgwyliad oes gyfartalog o bensiynwyr yn fwy nag a dybiwyd yn dybiaethau actiwariaid. Mae cynnydd mewn ymrwymadau yn fwy na'r amcangyfrif prisiant blaenorol.	3	3	9	Mae rhagdybiaethau disgwyliad oes yn cael eu hadolygu ym mhob prisiant. Mae'r disgwyliad oes wedi ei lefelu allan yn data Prisiad 2022. Mae'r Gronfa yn defnyddio tybiaethau pwrpasol ar sail y disgwyliad oes ar draws ardal Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae tybiaethau marwolaeth yn cynnwys rhywfaint o lwfans ar gyfer cynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi		

2.12	Nid yw cyfraniadau cyflogwyr y cynllun i'r Gronfa yn cael eu derbyn neu eu prosesu neu eu cofnodi yn gyflawn ac yn gywir. Gellir achosi sefyllfa llif arian negyddol, oedi mewn cynhyrchu adroddiadau IAS19/ FRS102 a cau'r cyfrifon.	4	3	12	Ceir amserlen statudol ar gyfer derbyn cyfraniadau. Mae'r tîm yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr y cynllun i sicrhau bod cyfraniadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac yn cael eu cofnodi'n gywir. Mae manylion unrhyw gyfraniadau sydd heb eu talu neu eu talu yn hwyr yn cael eu cofnodi ac mae camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn adennill taliadau.	2	2	4	Rheolwr Buddsoddi		
2.13	Mae cyflogwr yn peidio â bodoli heb gyllid digonol ar gael i ddatrys unrhyw ddyledion, neu'n gwrthod talu gwerth rhoi'r gorau. Cyflogwyr sy'n gadael yn peidio cwrdd â'i ymrwymadau sy'n arwain at gynnydd mewn costau ar draws y cyflogwyr sy'n weddill y Cynllun. Dynodwyd cyflogwyr heb unrhyw Gytundebau Derbyn, ac mae cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu hyn.	3	3	9	Mae'r risg yn cael ei leddfu gan: Gwirio cyflogwyr arfaethedig cyn derbyn fel cyflogwr a sicrhau eu bod yn deall eu ymrwymadau. Mae ceisiadau am fynediad i'r Gronfa yn cael eu hystyried yn ofalus ac mae bond neu warant yn cael ei roi mewn lle os oes angen. Bydd ymrwymadau rhagorol yn cael eu hasesu ac adennill oddi wrth unrhyw gyrff olynol neu ledaenu ymhlith cyflogwyr sy'n weddill. Mae'r prisiant actiwariaid yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfnod adennill gyda risg o dynnu'n ôl. Os oes angen, bydd camau cyfreithiol priodol yn cael eu cymryd.	2	3	6	Pennaeth Cyllid Rheolwr Pensiynau		

2.14	Gall trefniadau pwlio arwain at: - cynnydd mewn costau, yn arbennig dros y flwyddyn nesaf, wedi'i ysgogi gan y diwygiadau arfaethedig a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol'. - perfformiad is - gwrthdaro o fewn y pwl - diffyg alinio i strategaeth buddsoddi Cronfa Gwynedd	4	3	12	Mae swyddogion y Gronfa yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Bartneriaeth er mwyn trafod materion a opsiynau buddsoddi. Mae gan y Gronfa gynrychiolaeth ar pob is-grwp a grwpiau gweithredol y Bartneriaeth. Mae Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd yn aelod o Gyd- bwyllgor Llywodraethu y Bartneriaeth. Mae gan y Bartneriaeth bolisiau a trefn llywodraethu cadarn a tryloyw. Mae cynnydd y Bartneriaeth a perfformiad y cronfeydd mae Cronfa Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Panel Buddsoddi a Bwrdd Pensiwn.	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi Pennaeth Cyllid Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau		
2.15	Nid yw Cyfrifon Terfynol y Gronfa Bensiwn ac Adroddiad Blynnyddol yn cael ei cynhyrchu yn unol a gofynion statudol, safonau cyfrifo neu amserlen archwilio. Risg i enw da'r Gronfa Bensiwn	4	3	12	Mae swyddogion y Gronfa yn Gyfrifwyr Cymwysedig ac yn mynychu cyrsiau hyfforddiant CIPFA rheolaidd. Mae amserlen yn cael ei osod er mwyn sicrhau bod dyddiadau allweddol yn cael ei cyrraedd wrth baratoi y cyfrifon. Cyfathrebu clir a cyson gyda Archwilio Cymru er mwyn gallu cyhoeddi y cyfrifon terfynol wedi'i archwilio cyn y dyddiad statudol o 1af o Rhagfyr. Mae gan y Gronfa systemau gadarn (efinancials, iConnect, Altair) sydd yn cofnodi trafodion y Gronfa yn gywir. Mae gan y Gronfa fynediad i ddatganiadau gan ein Rheolwyr Buddsoddi i gadarnhau trafodion a gwerth asedau'r Gronfa.	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		

2.16	Methu ag esblygu a chwilio am gyfleoedd newydd.	4	3	12	Mae swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy fynychu cyfarfodydd PPC a chynadleddau CPLIL. Mae'r ymgynghorwyr yn diweddarau'r Panel Buddsoddi a swyddogion am unrhyw gyfleoedd.	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		
3. Rôl Ceidwad											
3.1	Methiant ceidwad yn arwain at gollodion sy'n golygu: - Methiant i leihau'r diffyg. - Colled ariannol.	5	3	15	Penodwyd Ceidwad hynod ddibynadwy gydag achrediad uchel. Mae asedau'r Gronfa yn cael eu diogelu mewn achos o ansolfedd y ceidwad. Mae'n rhaid i'r ceidwad gadw at reoliadau ariannol FCA a TPR.	2	2	4	Rheolwr Buddsoddi		
4. Cyfathrebu											
4.1	Cyfathrebu ac ymgysylltu annigonol a Rhandaliadau'r Gronfa Bensiwn. Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau effeithiol a / neu ddarparu'r gwasanaeth. Risg i enw da'r Gronfa.	3	3	9	Mae Polisi Cyfathrebu yn ei le. Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gynhwysfawr ac yn cael ei gadw'n gyfredol. Mae perfformiad y Gronfa yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Buddsoddi a Phensiwn y Gronfa yn rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd gyda chyflogwyr y Gronfa. Mae Datganiadau Buddion Blynnyddol a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn flynyddol i aelodau actif a gohiriedig y Gronfa. Mae'r rhestr gyswllt ar gyfer cyflogwyr yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn cael ei gynnal ar gyfer cyflogwyr ac Undebau	3	2	6	Rheolwr Pensiynau	Mae angen adolygu gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd	2025

					Llafur. Mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi ar wefan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae gwefan Hunanwasanaeth Aelodau 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ar gael i aelodau i gyfrifo buddion eu hunain.						
5. Gwarchod data											
5.1	Efallai na fydd y systemau a data'r Gronfa Bensiwn yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol. - Colli data sensitif. - Risg o golli enw da. Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.	3	2	6	Mae'n ofyniad gorfodol i bob gweithiwr i ymgymryd â hyfforddiant Diogelu Data a glynu at bolisi diogelu data Gwynedd. Mae data cyfraniadau a chyflogau aelodau yn cael eu hanfon drwy'r porth diogel i-Connect yn syth i gofnodion yr aelodau. Ble mae'n bosib, defnyddir system e-bost Egress (system e-bost diogel) i anfon e-byst i gyflogwyr nad ydynt wedi'u rhestru ar restr y Sefydliad E-bost Diogel. Mae system cadw dogfennau yn ddiogel hefyd yn cael ei gweithredu gan ein actiwari ac ymgynghorwyr.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
6. Gweinyddiaeth Pensiynau											
6.1	Buddion pensiwn ddim yn cael eu talu: - Risg o golled ariannol sy'n deillio o hawliadau iawndal. - Difrod i enw da.	4	2	8	Mae'r system gyflogres wedi cael ei sefydlu i dalu pensiynwyr yn fisol. Mae cynllun adfer trychineb ar waith gyda Heywood a fydd yn adfer data o fewn 7 diwrnod mewn achos o fethiant systemau.	4	1	4	Rheolwr Pensiynau		
6.2	Methiant yn ddata'r aelod yn y cynllun a phrosesau cyfrifo buddion	3	2	6	Dim ond gan ffynonellau awdurdodedig y derbynnir gwybodaeth a chyfarwyddiadau.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		

	yn arwain at dwyll, llygredigaeth neu wall. - Taliadau heb awdurdod o dan Ddeddf Cyllid 2004. - Risg o golled ariannol a niwed i enw da.				Mae'n ofynnol i gyflogwyr adolygu a chadarnhau cofnodion aelodaeth yn flynyddol. Mae cyfrifiadau buddion cael eu gwirio gan uwch gydweithwyr. Mae'r holl drafodion yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol Cyngor Gwynedd ac maent yn destun awdurdodiad annibynnol. Aelodau sy'n agosau at 75 yn cael eu nodi ar wahân yn fisol.						
6.3	Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a methiant i weithredu deddfwriaeth a rheoliadau newydd, gan arwain at: - Taliadau anghywir yn cael eu gwneud. - Risg o golled ariannol a niwed i enw da.	3	3	9	Hyfforddiant CLIL (LGA)/ Allanol. Dull gwaith prosiect i weithredu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Hyfforddiant mewnol ar gyfer yr holl staff. Adnoddau ychwanegol mewn lle i weithredu rhwymedi McCloud.	2	2	4	Rheolwr Pensiynau		
6.4	Buddion pensiwn yn parhau i gael ei dalu i bensiynwyr sydd wedi marw, gan arwain at: Risg o golled ariannol a niwed i enw da.	2	4	8	Cysylltir â bob pensiynwr yn flynyddol. Mae pensiynwyr yn cael eu hymgorffori yn y Fenter Twyll Cenedlaethol. Mae gwiriadau pellach yn cael eu cynnal gydag asiantaethau cyfeirio credyd fel sy'n briodol. Mae sgrinio marwolaethau misol yn cael ei wneud ac mae unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu stopio ar unwaith. Mae'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yn weithredol.	2	3	6	Rheolwr Pensiynau		

6.5	Methiant yn y system. - Colli data sensitif. - Niwed i enw da. Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.	5	2	10	Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol. Mae cynllun adfer trychineb mewn lle ac yn cael ei brofi bob blwyddyn (Yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd).	5	1	5	Rheolwr Pensiynau		
6.6	Methiant Hunan Wasanaeth Aelodau Risg enw da.	4	2	8	Yn cael ei gynnal gan y darparwr meddalwedd Heywood.	4	1	4	Rheolwr Pensiynau		
6.7	Ymosodiad Seiber - Colli data sensitif. - Systemau wedi'u difrodi neu eu dinistrio. - Niwed i enw da. Colled ariannol yn deillio o gamau cyfreithiol.	5	4	20	Polisiau priodol a wal dân effeithiol, Mae'r meddalwedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda'r nodweddion diogelwch diweddaraf Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol. Mae angen sawl cyfrinair i gael mynediad i'r system	5	2	10	Rheolwr Pensiynau		
6.8	Cyflogwyr ddim yn cyflawni eu cyfrifoldebau e.e. ddim yn darparu data cywir ar gyfer y gweithwyr neu ddim yn darparu'r wybodaeth mewn modd amserol. Buddion anghywir yn cael eu cyfrifo Oedi tra ein bod yn gofyn am y wybodaeth sydd ar goll.	3	2	6	Mae'r Strategaeth Gweinyddu yn nodi cyfrifoldebau ac amserlenni'r dyllir y cyflogwyr ddilyn. System i-Connect mewn lle i gasglu'r data yn fisol. Cysylltir â'r cyflogwyr am wybodaeth os yw'r adran Bensiynau yn amau bod gwybodaeth ar goll neu yn cynnwys gwallau. Darperir cyngor a gwybodaeth i'r cyflogwyr. Gwiriadau blynyddol o ddata i dynnu sylw at unrhyw fylchau.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		

					Cyfarfodydd ar gyfer y cyflogwyr yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd.						
					Canllawiau ar gael ar y wefan.						
6.9	Methiant i gydymffurfio a rheoliadau datgelu e.e. y gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth o fewn amserlen benodol ar ôl derbyn cais / digwyddiad. Cwynion / Dirwyon	3	2	6	System rheoli llif gwaith cadarn mewn grym.	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
6.10	Methiant i gyhoeddi Datganiadau Buddion Blynyddol i aelodau actif a gohiriedig erbyn 31 Awst: - Risg i enw da a chwynion. - Dirwyon.	2	4	8	Ymagwedd rheoli prosiect Mae cyswllt rheolaidd gyda chyflogwyr i gael data. Cyflwynir datganiadau ar-lein ar y wefan hunanwasanaeth. Rhyngwyneb misol i leihau llwyth gwaith ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r prif gyflogwyr (i-Connect)	2	1	2	Rheolwr Pensiynau		
6.11	Dim digon o adnoddau i ddelio â phwysau newydd a newidiadau megis McCloud, Dashboards ac ati.	4	3	12	Mae adnoddau'r Gronfa yn cael ei adolygu'n flynyddol fel bo'r angen gan yn Pwyllgor. Pecyn recriwtio yn cynnig hyblygrwydd.	4	2	8	Rheolwr Pensiynau		
6.12	Methiant i gyflawni gofynion statudol Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau, gan arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth, niwed i enw da, neu darfu ar y gwasanaeth. Niwed i enw da os na fydd data aelodau ar gael, neu os yw'n anghywir neu wedi'i oedi.	3	3	12	Ymgysylltiad rheolaidd gyda'r darparwr meddalwedd i fonitro datblygiad offer cysylltiad y dangosfwrdd. Cynllun prosiect mewnol wedi'i ddatblygu gyda cherrig milltir sy'n unol â'r dyddiad cau disgwylidig ar gyfer camu ymlaen. Adolygiadau a gwella ansawdd data parhaus cyn y broses ychwanegu.	3	2	6	Rheolwr Pensiynau		

	- Cosbau ariannol neu oruchwyliaeth reoleiddiol gan Reoleiddiwr y Pensiynau. - Cynnydd yn nifer y cysylltiadau gan aelodau oherwydd anhrefn yn y data. - Straen ar adnoddau mewnol oherwydd gofynion integreiddio technegol cymhleth.				Hyfforddiant staff a chynllunio adnoddau i reoli'r cynnydd disgwyledig mewn ymholiadau gan aelodau ar ôl lansio'r dangosfwrdd.						
6.13	Mae cyflwyno system gyflogres newydd yn 2026 i brosesu taliadau i staff ac pensiynwyr yn cyflwyno risgiau posibl sy'n ymwneud â mudo data, integreiddio systemau, cywirdeb taliadau, a pharhad gwasanaeth. Gall unrhyw fethiant neu oedi yn y broses weithredu arwain at daliadau anghywir neu fethu taliadau, difrod i enw da, ac ychwanegu at y baich gweinyddol.	4	3	12	- Strwythur llywodraethu prosiect wedi'i sefydlu gyda rolau a chyfrifoldebau clir - Cynllun gweithredu manwl gyda phrofion fesul cam a mesurau wrth gefn - Cydweithio â'r darparwr meddalwedd a chefnogaeth TG ar gyfer integreiddio a hyfforddiant - Cyfathrebu rheolaidd â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau pensiwn a staff - Protocolau dilysu data a phrofion rhedeg cyfochrog cyn y dyddiad lansio	4	2	8	Rheolwr Pensiynau		2026
7. Prosesau Mewnol											
7.1	Mae natur arbenigol y gwaith yn golygu nifer fach o swyddogion sydd gyda'r wybodaeth perthnasol ac mae effaith o ymadawiad staff allweddol yn arwyddocaol. Gallai'r risg o golli staff allweddol arwain at fethiant mewn prosesau	4	3	12	Mae swyddogion allweddol yn cyfleu gwybodaeth arbenigol i gydweithwyr ar sail swyddogaeth neu bwnc trwy fentora. Mae anghenion hyfforddi wedi'u eu nodi mewn swydd disgrifiad a'i adolygu bob blwyddyn gydag aelodau'r tîm trwy'r broses arfarnu.	4	2	8	Rheolwr Pensiynau a Rheolwr Buddsoddi		

	mewnol a darparu gwasanaethau, gan achosi colled ariannol ac a bosib niwed i enw da.				Cymwysterau perthnasol penodol ar gyfer staff gweinyddol a buddsoddi. Mae canllawiau mewnol 'Sut i..' yn cael eu datblygu ar yr holl brosesau mewnol. Ymgynghorwyr allanol a chynghorydd annibynnol ar gael ar gyfer cymorth tymor byr.						
8. Ffactorau Allanol na ellir eu Rheoli											
8.1	Gweithrediadau arferol wedi eu tarfu gan ffactorau allanol na ellir eu rheoli Bygythiadau cyflenwi gwasanaeth oherwydd tân, bom, tywydd eithafol, namau trydanol, salwch, epidemig, pandemig ac ati. Cefnogaeth dyddiol annigonol, adfer ar ôl trychineb, a gorchudd TG i gefnogi systemau. Colli gallu dros dro i ddarparu gwasanaeth i randdeiliaid	5	5	25	Gweithio o gartref yn digwydd gyda nifer o'r staff yn gweithio'n hybrid erbyn hyn. Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer system bensiynau. Parhad Busnes / Trychineb. Cynllun Adferiad i'r Awdurdod gyda waliau tân TG.	3	3	9	Rheolwr Pensiynau	Datblygu dulliau newydd o weithio	
9. Ymateb i 'Addas i'r Dyfodol'											
9.1	Perygl y bydd WPP IM Co yn methu â chael awdurdodiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) mewn pryd ar gyfer mynd yn fyw ym mis Ebrill 2026. Heb awdurdodiad FCA, ni all cwmni buddsoddi PPC weithredu'n gyfreithlon, gan achosi tarfu gweithredol mawr.	4	4	16	Ymgysylltu cynnar a pharhaus gyda'r FCA. Paratoi cais FCA a dogfennaeth cydymffurfio'n drylwyr. Ymgysylltu â chynghorwyr rheoleiddio allanol i sicrhau bod y ceisiadau yn llawn. Datblygu cynlluniau wrth gefn os yw oedi yn digwydd.	4	3	12	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi		

9.2	Costau sefydlu'r prosiect yn uwch na'r disgwyl (£1.6M+), costau rhedeg cychwynnol (£5M-5.5M y.f.), a chyfalaf rheoleiddiol (£5M-10M) yn gallu achosi straen ar gyllidebau. Gallai cost gor-redeg leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau neu yn gofyn am gyfraniadau ychwanegol gan awdurdodau gweinyddu.	4	3	12	Datblygu rhagolygon ariannol manwl ac adolygiadau cyllideb rheolaidd. Gweithredu rheolaethau cost prosiect llym a phrosesau cymeradwyo. Sefydlu trefniadau cyllido clir ac wrth gefn gydag awdurdodau gweinyddu.	3	3	9	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi		
9.3	Gall dibyniaeth ar ddarparwyr trydydd parti ar gyfer gwasanaethau allweddol ar Ddiwrnod 1 gweithrediadau PPC IM Co beri risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd gwasanaeth, parhad ac integreiddio.	4	3	12	Cynnal diwydrwydd dyladwy trylwyr ar ddarparwyr trydydd parti. Sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth a prosesau monitro cadarn. Datblygu cynlluniau mewnnoli graddol gydag amserlenni clir.	3	3	9	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi		

Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	15/09/2025
Teitl:	POLISIÂU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN
Pwrpas:	I gymeradwyo'r polisiâu gweinyddol newydd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad:

Dros y blynyddoedd, mae ein cronfa bensiwn wedi gweithredu gyda rhai polisiâu gweinyddol sydd wedi arwain ein penderfyniadau a'n gweithredoedd. Fodd bynnag, nid yw'r polisiâu hyn wedi'u dogfennu'n ffurfiol. Yn unol â Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, rydym bellach yn cychwyn y broses o ddogfennu'r polisiâu hyn i sicrhau eglurder, cysondeb, a chydymffurfiaeth.

2. Pwrpas:

Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno tair polisi gweinyddu allweddol i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau. Mae'r polisiâu hyn yn hanfodol ar gyfer rheoli ac gweinyddu'r gronfa bensiwn yn effeithiol. Cyn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, cafodd y polisiâu hyn eu hadolygu gan y Bwrdd Pensiwn. Ac eithrio ychwanegiadau mân iawn, mynegodd y Bwrdd eu boddhad â'r polisiâu ac argymhellodd eu gweithredu.

3. Polisiâu a Gyflwynir:

- A. **Taliadau ymlaen llaw o'r Gyflogres Pensiynwyr (Atodiad A)** Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle gall y Gronfa roi taliadau ymlaen llaw i bensiynwyr—megis mewn achosion o oedi mewn prosesu.
- B. **Dosbarthiad Taliadau Grant Marwolaeth (Atodiad B)** Mae'r polisi hwn yn darparu dull strwythuredig o sut mae taliadau grant marwolaeth yn cael eu dyrannu i fuddiolwyr. Mae'n cynnwys canllawiau ar flaenoriaethu enwebiadau, ymdrin ag anghydfodau, a sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol a theg.
- C. **Egwyl mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL (atodiad C)** Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle y caniateir egwyl o addysg heb effeithio ar hawl i bensiwn plentyn dibynnol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), yn benodol ar gyfer unigolion rhwng 18 a 23 oed.

4. Casgliad:

Mae dogfennu'r polisiâu hyn yn gam sylweddol tuag at wella llywodraethu a gweinyddu ein cronfa bensiwn. Rydym yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r polisiâu hyn o 1 Hydref 2025.



Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi ar Wneud Taliadau Ymlaen llaw o'r Gyflogres Pensiynwyr

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") mewn perthynas â cheisiadau i wneud taliadau ymlaen llaw o fuddion pensiwn o'r gyflogres pensiynwyr misol. Mae'r polisi yn sicrhau tegwch, tryloywder a chysondeb wrth amddiffyn uniondeb gweithdrefnau gweinyddol ac ariannol y Gronfa.

2. Cefndir

O dan amgylchiadau arferol, mae buddion pensiwn CPLIL yn cael eu talu mewn ôl-ddyledion yn fisol yn unol ag amserlen gyflogres gyhoeddedig y Gronfa. Mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig, gall aelodau neu eu cynrychiolwyr ofyn i daliad gael ei wneud cyn y gyflogres pensiynwr nesaf.

3. Egwyddorion Cyffredinol

Nid yw taliadau ymlaen llaw o'r gyflogres pensiynwyr **yn hawl awtomatig** a dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol**, megis:

- Caledi ariannol ar ôl ymddeol neu brofedigaeth
- Oedi mewn prosesu a achosir gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr aelod
- Camgymeriadau gweinyddol ar ran y Gronfa neu'r Cyflogwr
- Cyfarwyddiadau penodol a gyhoeddwyd o dan orchymyn llys neu gyfarwyddyd cyfreithiol

Bydd pob cais o'r fath yn cael ei ystyried fesul **achos** ac maent yn ddarostyngedig i ddisgresiwn **Rheolwr Pensiynau'r Gronfa (neu swyddog awdurdodedig priodol)**.

4. Meini prawf i'w hystyried

Ystyrir gwneud taliadau ymlaen llaw dim ond os caiff y meini prawf canlynol eu bodloni:

- Mae'r Gronfa wedi derbyn **yr holl ddogfennau angenrheidiol**, gan gynnwys:
 - Ffurflenni datganiad ymddeol yr aelod
 - Gwybodaeth am dâl terfynol a manylion gadael gan y cyflogwr
 - Cadarnhad o wasanaeth pensiynadwy ac unrhyw fudd-daliadau ychwanegol
 - Y gronfa AVC gan ddarparwr AVC (os yw'n berthnasol)
- Gwerth net y taliad yw £100.00 neu fwy.
- Mae swm y pensiwn wedi'i gyfrifo a'i wirio'n gywir.
- Ni fydd y taliad ymlaen llaw yn tarfu ar uniondeb na chywirdeb cyflogres y pensiynwyr nac adrodd diwedd y flwyddyn

Yn bwysig, ni fydd y Gronfa yn ystyried gwneud taliad ymlaen llaw os yw lwmp swm ymddeol yn cael ei dalu ar fuan, gan y disgwylir y gallai'r aelod allu defnyddio'r lwmp swm hwnnw i reoli anghenion ariannol tymor byr cyn derbyn y rhandaliad pensiwn misol cyntaf.

5. Dull Talu ac Amseru

Lle caiff eu cymeradwyo, bydd taliadau ymlaen llaw:

- Wedi'u gwneud drwy daliad y **tu allan i'r cylch arferol** neu daliad **CHAPS â llaw**.
- Yn gallu cynnwys y lwmp swm un tro (grant ymddeol) lle bo hynny'n briodol.
- Wedi'u cofnodi'n glir yn cofnod pensiwn yr aelod ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cymhariaeth gyflogres nesaf a drefnwyd.

Mae'r Gronfa yn cadw'r hawl i ohirio unrhyw daliad ymlaen llaw os oes diffyg gwybodaeth, risg o wall sylweddol, neu eglurhad heb ei roi gan y cyflogwr.

6. Oedi a Chyfrifoldebau Cyflogwyr

Pan fo oedi cyn derbyn gwybodaeth cyflogwr yn atal taliad amserol:

- Ni fydd y Gronfa fel arfer yn gwneud taliad ymlaen llaw oni bai bod yr oedi yn ormodol ac mae'r aelod dan anfantais amlwg.
- Disgwylir i gyflogwyr gyflwyno'r holl wybodaeth ofynnol **o fewn 10 diwrnod gwaith** o ddiwrnod olaf yr aelod o Wasanaeth.
- Gall methiant parhaus gan gyflogwr i fodloni'r gofyniad hwn gael ei waethygu o dan fframwaith torri a chydymffurfiaeth y Gronfa.

7. Adennill ac addasu

Os canfyddir bod taliad ymlaen llaw yn anghywir yn ddiweddarach oherwydd camgyfrifiad neu wybodaeth anghyflawn:

- Mae'r Gronfa yn cadw'r hawl i addasu **taliadau pensiwn yn y dyfodol** i adennill unrhyw ordaliad.
- Bydd yr aelod yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig, a gellir trefnu cynllun ad-dalu mewn achosion o galedi ariannol.

8. Apeliadau

Os gwrthodir cais am daliad ymlaen llaw, gall yr aelod ofyn am adolygiad trwy gyflwyno apêl ysgrifenedig, a fydd yn cael ei ystyried gan uwch swyddog nad yw'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol. Gellir gwneud cynnydd pellach trwy'r **Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP)** os oes angen.

9. Adolygiad a Diwygiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfio â rheoliadau perthnasol.

10. Gwybodaeth Gyswllt:

Am gymorth gyda'r polisi hwn, gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg.

- **Ffôn:** 01286 679982
- **Ebost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] [Teitl] Cronfa Bensiwn Gwynedd



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi Talu Grant Marwolaeth

1. Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw amlinellu'r egwyddorion a'r gweithdrefnau y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch talu grant marwolaeth yn dilyn marwolaeth aelod. Mae'r polisi hwn yn sicrhau cysondeb, tegwch a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau actif, gohiriedig a phensiynwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd â hawl i grant marwolaeth o dan y Rheoliadau CPLIL. Bwriad y grant yw darparu cymorth ariannol i fuddiolwyr neu ystâd yr aelod.

3. Datganiad Polisi

Mae'r Gronfa yn annog aelodau i lenwi ffurflen Mynegi Dymuniad ynghylch Grant Marwolaeth i enwebu buddiolwyr y byddent yn dymuno iddynt dderbyn unrhyw daliadau grant marwolaeth. Fodd bynnag, mae'r Gronfa yn cadw disgresiwn llwyr dros dalu grantiau marwolaeth, fel y nodir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae'r pŵer disgresiwn hwn yn galluogi'r Gronfa i wneud taliadau priodol ac amserol i fuddiolwyr, gan ystyried amgylchiadau unigol pob achos.

4. Enwebiadau

Anogir aelodau'n gryf i lenwi a diweddarau **Ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth**, sy'n eu galluogi i enwebu un neu fwy o unigolion neu gyrff i dderbyn unrhyw grant marwolaeth a allai fod i'w dalu.

Er y bydd y Gronfa yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw enwebiad a wneir, nid yw'n gyfreithiol rhwym ganddo ac mae'n cadw disgresiwn absoliwt wrth benderfynu ar dderbynnnydd mwyaf priodol y grant marwolaeth.

Mae'n hanfodol bod aelodau'n adolygu a diweddarau eu henwebiad yn brydlon yn dilyn unrhyw newid mewn amgylchiadau personol. Er enghraifft, bydd marwolaeth unigolyn enwebedig yn gwneud yr enwebiad cyfan yn annilys.

Gall aelodau ddiweddarau eu henwebiad ar unrhyw adeg trwy borth **Fy Mhensiwn Ar-lein y Gronfa** neu drwy ofyn am ffurflen yn uniongyrchol gan y Gronfa.

5. Egwyddorion Talu

Bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu yn unol â'r trefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Os yw'r aelod wedi gwneud enwebiad dilys ac wedi'i gadw'n gyfredol, bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu i'r buddiolwyr a enwebwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r enwebiad.

b) Os nad oes enwebiad wedi'i wneud, neu os nad yw unrhyw un o'r buddiolwyr a enwebwyd yn fyw mwyach, bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu fel a ganlyn:

- **I wraig neu bartner sifil yr aelod**, os yw hynny'n berthnasol, yn enwedig lle bydd pensiwn gwraig neu bartner sifil i'w dalu, oni bai bod amgylchiadau eithriadol i'w hystyried.
- **Os nad oes priod neu bartner sifil**, neu os nad yw'r priod/partner sifil yn gymwys i dderbyn pensiwn, bydd y grant yn cael ei dalu i ystad yr aelod.

Ar gyfer unrhyw daliad grant marwolaeth **gwerth £5,000 neu fwy**, bydd angen **Profiant** (os oes ewyllys) neu **Lythyr Gweinyddu** (os nad oes ewyllys) **os nad oes enwebiad dilys** nac unrhyw **bartner** i dderbyn y taliad. Mae'r gofyniad hwn yn sicrhau bod yr unigolyn sy'n gwneud cais am y grant marwolaeth yn cael awdurdod cyfreithiol i reoli etifeddiaeth y person a fu farw ac i ddosbarthu'r arian yn unol â dymuniadau'r person a fu farw neu gyfreithiau hepgor ewyllys.

6. Amserlen Talu

Nod Cronfa Bensiwn Gwynedd yw prosesu taliadau grant marwolaeth **o fewn 10 diwrnod gwaith** o dderbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol, gan gynnwys prawf swyddogol o farwolaeth ac unrhyw ffurflenni angenrheidiol.

Sylwer, mewn achosion cymhleth neu lle mae angen ymchwiliad ychwanegol—megis absenoldeb enwebiad dilys neu ansicrwydd ynghylch buddiolwyr cymwys—gellir ymestyn amseroedd prosesu.

Ar ôl ei gymeradwyo, bydd taliad yn cael ei dalu trwy'r system **BACS (Bankers' Automated Clearing Services)** yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynnydd.

7. Taliad i blant dan 18 oed

Nid yw'r Gronfa yn gallu talu grant marwolaeth yn uniongyrchol i **blentyn o dan 18 oed**. Mewn achosion o'r fath, bydd y taliad yn cael ei wneud i **ymddiriedolwr** neu **warcheidwad penodedig** a fydd yn rheoli'r arian ar ran y plentyn nes iddynt gyrraedd 18 oed. Rhaid i'r gwarcheidwad neu'r ymddiriedolwr penodedig ddarparu dogfennaeth briodol i'r Gronfa sy'n cadarnhau eu rôl a'u hawdurdod cyfreithiol i reoli etifeddiaeth y plentyn.

8. Trethiant

O dan reolau cyfredol CThEM, mae grantiau marwolaeth a delir o fewn dwy flynedd i'r Gronfa gael ei hysbysu am farwolaeth yr aelod fel arfer **yn rhydd o dreth etifeddiant**. Os bydd y taliad yn cael ei ohirio dros ddwy flynedd, gall y grant marwolaeth ddod yn ddarostyngedig i dreth.

Anogir buddiolwyr i geisio cyngor ariannol neu dreth annibynnol i ddeall unrhyw oblygiadau posibl.

Bydd y Gronfa yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y taliad yn cael ei wneud o fewn y ffenestr ddi-dreth, ond ni all warantu hyn ym mhob achos.

9. Cydymffurfiaeth Gyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â:

- Rheoliadau **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**;
- Darpariaethau cymwys Deddf **Cyllid 2004** sy'n ymwneud â budd-daliadau marwolaeth cyfandaliad cynllun pensiwn;
- Canllawiau perthnasol **CThem**;
- Gweithdrefnau llywodraethu mewnol y Gronfa.

Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adolygu ac yn diweddarau'r polisi hwn yn unol ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu reoliadau i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

10. Anghydfodau ac Apeliadau

Os yw unrhyw fuddiolwr posibl yn anfodlon â phenderfyniad y Gronfa ynglŷn â thaliad grant marwolaeth, gallant godi cwyn o dan y **Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol**, yn unol â gofynion y CPLIL.

11. Adolygiad a Diwygiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfio â rheoliadau perthnasol.

12. Gwybodaeth Gyswllt:

Am gymorth gyda'r polisi hwn, gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg.

- **Ffôn:** 01286 679982
- **Ebost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] [Teitl] Cronfa Bensiwn Gwynedd



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi ar Egwyl mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL

1. Pwrpas

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i gefnogi dibynyddion ei haelodau sy'n dilyn addysg bellach neu hyfforddiant galwedigaethol ar ôl troi'n 18 oed. Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle y caniateir egwyl o addysg heb effeithio ar hawl i bensiwn plentyn dibynnol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), yn benodol ar gyfer unigolion rhwng 18 a 23 oed.

2. Darpariaethau'r Polisi

a. Cymhwyster

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddibynyddion:

- Rhwng 18 a 23 oed,
- Sy'n gymwys i gael pensiwn plentyn dibynnol CPLIL,
- Sy'n cymryd egwyl dros dro o **addysg llawn amser neu hyfforddiant galwedigaethol**, gyda'r bwriad gwirioneddol o ddychwelyd.

b. Egwyl Derbyniol mewn Addysg

- Caniateir egwyl o un flwyddyn academiaidd o addysg neu hyfforddiant llawn amser.
- Yng ngwledydd Prydain, mae blwyddyn academiaidd yn cyfeirio at y cyfnod pan fydd ysgolion, colegau a phrifysgolion yn darparu eu haddysgu a'u hasesiadau a drefnwyd. Fel arfer, mae'n rhedeg o ddechrau mis Medi tan ddiwedd mis Gorffennaf, er y gall dyddiadau penodol amrywio ychydig yn ôl sefydliad neu ranbarth.
- Rhaid i'r egwyl ddigwydd ar ôl i'r dibynnol gyrraedd 18 oed, ac yna ddychwelyd i astudio'n llawn amser.

c. Datganiad o Fwriad

- Rhaid i'r dibynnol (neu warcheidwad) anfon **hysbysiad ysgrifenedig** i Gronfa Bensiwn Gwynedd **cyn i'r egwyl ddechrau**.
- Rhaid i'r hysbysiad gadarnhau'n glir y bwriad i ddychwelyd i addysg neu hyfforddiant llawn amser ar ôl yr egwyl.

d. Cadarnhad Ddychwelyd i Addysg

Er mwyn ailgychwyn taliadau pensiwn y plentyn, rhaid cyflwyno:

- **Cadarnhad swyddogol o gofrestriad** gan y sefydliad addysgol neu'r corff cyflogi,
- **Manylion y cwrs**, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen disgwyledig,
- **Cadarnhad ei fod yn llawn amser** (e.e. oriau astudio neu lwyth credyd).

e. Atal ac Ailgydio'r Pensiwn

- Bydd taliadau pensiwn yn cael eu **hatal dros dro** yn ystod yr egwyl a ganiateir.
- Ar ôl derbyn a gwirio tystiolaeth o gofrestru, bydd taliadau'n cael eu **ailgychwyn** a'u talu'n ôl i ddyddiad dechrau'r tymor newydd.

f. Methiant i Ddilyn y Polisi

- Os na fydd y plentyn yn **dychwelyd** i addysg llawn amser o fewn y cyfnod o un flwyddyn academiaidd, caiff pensiwn y plentyn ei **gau**.
- Cynhelir adolygiad terfynol o'r hawl yn unol â Rheoliadau'r CPLIL a'r polisi hwn.

3. Adolygu'r Polisi a Newidiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol.

4. Manylion Cyswllt:

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.llyw.cuymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: